Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Tachwedd 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg./ This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron © Un Llais Cymru © Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

WG46398

Cynnwys

Cynnwys ... 2
Cyflwyniad ... 4
Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth ... 5
Cymryd camau ar ôl cwblhau'r pecyn cymorth ... 6
Adroddiadau blynyddol ... 6
Cynlluniau hyfforddi ... 6
Datganiad Llywodraethu Blynyddol ... 7
Pŵer cymhwysedd cyffredinol ... 7
Rhan 1: Y prawf iechyd ... 8
Cyflwyniad a sut i'w ddefnyddio ... 8
Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol ... 9
Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol - Crynodeb o'r camau gweithredu ... 12
Thema B – Arweinyddiaeth a phobl ... 13
Thema B – Arweinyddiaeth a phobl - Crynodeb o'r camau gweithredu ... 20
Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau ... 21
Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau - Crynodeb o'r camau gweithredu ... 25
Thema D – Prosesau busnes ... 26
Thema D – Prosesau busnes - Crynodeb o'r camau gweithredu ... 38
Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol ... 39
Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol - Crynodeb o'r camau gweithredu ... 55
Crynodeb o'r holl gamau gweithredu i'w cymryd o ganlyniad i Ran 1 – Y prawf iechyd ... 56
Rhan 2: Yr hunanasesiad ... 57
Cyflwyniad a sut i'w ddefnyddio ... 57
Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol ... 59
Thema B – Arweinyddiaeth a phobl ... 64
Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau ... 75
Thema D – Prosesau busnes ... 85
Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol ... 96
Thema F – Gwerthuso'r effaith ... 105
Crynodeb o'r camau gweithredu allweddol i'w cymryd o ganlyniad i Ran 2 – Yr hunanasesiad ... 108
Diweddariadau i'r Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref ... 109

Cyflwyniad

Nod y pecyn cymorth hwn, a ddatblygwyd ar y cyd gan Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) a Llywodraeth Cymru, gyda sylwadau gan Archwilio Cymru, yw helpu cynghorau cymuned a thref yng Nghymru i wneud y canlynol:

- adolygu'r trefniadau rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd sydd ar waith ganddynt;
- ystyried pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn, a sut y gellid eu gwella.

Mae cynghorau cymuned a thref yn rhan annatod o lywodraeth leol; cânt eu hethol yn ddemocrataidd ac maent yn gweithio ar y lefel fwyaf lleol i wella eu cymunedau.

Mae cynghorau cymuned a thref hefyd yn gyfrifol, ac yn atebol, am gynnal busnes cyhoeddus ac am wario arian cyhoeddus. Yn ôl y gyfraith, mae angen i gynghorau sicrhau eu bod yn diogelu ac yn defnyddio'r arian cyhoeddus a ymddiriedwyd iddynt mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol, gan roi cyfrif priodol amdano.

Disgwylir i bob cyngor gyrraedd safonau stiwardiaeth uchel – mae hyn yn golygu cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, ond yn anad dim, mae'n ymwneud â chyflawni'r canlyniadau gorau i'r bobl a'r cymunedau a wasanaethir gennych.

Mae hunanasesu yn ffordd o adolygu'r sefyllfa bresennol, yn feirniadol ac yn onest, er mwyn penderfynu sut i sicrhau gwelliant ar gyfer y dyfodol. Bydd defnyddio'r pecyn cymorth hwn yn helpu i sicrhau bod eich cyngor yn meddu ar y gallu a'r adnoddau i wasanaethu eich cymuned yn briodol, gan eich galluogi i nodi cyfleoedd i wella'r ffordd y mae eich cyngor yn gweithio ac achub ar y cyfleoedd hynny, a sicrhau eich bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer eich cymunedau.

Nid adnodd archwilio mohono, ond bydd yn eich helpu i asesu a yw eich cyngor yn bodloni rhai gofynion statudol penodol y byddai archwilwyr allanol a'r cyhoedd yn disgwyl eu gweld. Mae'n ffordd o roi sicrwydd bod y cyngor yn gweithredu'n effeithiol. Gellir ei ddefnyddio i gefnogi eich rheolaethau mewnol a gall helpu i nodi ffyrdd y gall eich cyngor wella'n barhaus a chael effaith gadarnhaol ar eich cymuned.

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gymeradwyo gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, a fyddai'n annog cynghorau'n gryf i'w ddefnyddio. Er nad yw'n ofynnol i chi gyflwyno adroddiad ffurfiol ar ganfyddiadau eich hunanasesiad, mae'n bosibl yr hoffech gyhoeddi crynodeb o'r canfyddiadau, a'r camau gweithredu rydych yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb iddynt, ar eich gwefan a / neu fel rhan o'ch adroddiad blynyddol. Byddai gwneud hynny yn dangos ymrwymiad i fod yn agored a thryloyw gyda'r cymunedau rydych yn eu gwasanaethu.

Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys dwy ran:

- **Rhan 1: Y prawf iechyd**

  Bwriedir i'r prawf iechyd gael ei gwblhau gan y clerc, gan weithio gyda'r cadeirydd neu grŵp bach o aelodau fel y bo'n briodol, i **asesu a oes trefniadau a pholisïau llywodraethu a rheolaeth ariannol sylfaenol ac ati ar waith**, tynnu sylw at unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd ac adrodd yn ôl i'r cyngor llawn neu bwyllgor dynodedig.

- **Rhan 2: Yr hunanasesiad**
  Bydd yr hunanasesiad yn galluogi cynghorwyr i ddefnyddio canfyddiadau Rhan 1, a mathau eraill o dystiolaeth sydd ar gael, i **fyfyrio'n fanylach ar sut mae'r cyngor yn gweithredu, yn rheoli ei gyllid ac yn llywodraethu ei hun**. Bydd y cwestiynau yn eich helpu i ystyried pa drefniadau sydd ar waith gan y cyngor, **ac yn bwysig, sut mae'r cyngor yn gweithio ar ran y gymuned leol a chyda'r gymuned leol i sicrhau'r effaith fwyaf ar lesiant ei ardal**. Mae'r elfen hon o'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys manylion am amrywiaeth o adnoddau y gellir eu defnyddio i lywio'r broses o gynllunio camau gweithredu er mwyn ymateb i ganfyddiadau'r prawf iechyd a'r hunanasesiad.

Mae dwy elfen y pecyn cymorth yn ymdrin â phum maes allweddol o weithgarwch cynghorau cymuned a thref:

- Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol
- Arweinyddiaeth a phobl
- Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau
- Prosesau busnes
- Adnoddau a rheolaeth ariannol

Mae Rhan 2, yr hunanasesiad, hefyd yn cynnwys thema ychwanegol, sef gwerthuso effaith, a fydd yn galluogi'r cyngor i fyfyrio ar y budd y mae'n ei gynnig i'r gymuned er mwyn llywio ei waith yn y dyfodol.

Mater i chi yw penderfynu sut y byddwch chi a'ch cyngor yn defnyddio'r pecyn cymorth. Gallwch **gwblhau'r pecyn cymorth cyfan fel rhan o ymarfer unigol ar gylch blynyddol, neu efallai y byddwch am ymgymryd â'r gwaith dros gyfnod o wythnosau a misoedd** – cofiwch y dylech anelu at sicrhau bod unrhyw waith yn gyfredol ac yn berthnasol.

Mae'r pecyn cymorth wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio mewn ffordd hyblyg, gan alluogi eich cyngor i benderfynu pa feysydd i roi sylw iddynt. Er enghraifft, mae'n bosibl y

bydd y cyngor yn penderfynu cwblhau'r prawf iechyd cyfan yn gyntaf a defnyddio hwnnw i lywio'r broses o ystyried yr hunanasesiad manylach, neu gallai'r cyngor benderfynu edrych ar thema benodol yn y prawf iechyd a'r hunanasesiad ar y cyd cyn symud ymlaen i'r thema nesaf.

Anogir cynghorau i fwrw ati i gwblhau'r pecyn cymorth mewn ffordd onest a gwrthrychol. Bydd gwneud hynny yn eich helpu i ddeall meysydd sy'n gweithio'n dda a meysydd y mae angen eu gwella.

Cymryd camau ar ôl cwblhau'r pecyn cymorth

Drwy'r prawf iechyd a'r hunanasesiad sy'n rhan o'r pecyn cymorth, bydd y cyngor yn nodi meysydd gweithredu i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol. Dylid ystyried mai dechrau'r broses yw cwblhau'r pecyn cymorth, yn hytrach na bod yn nod ynddo'i hun. Dylai casgliadau'r prawf iechyd a'r hunanasesiad lywio cynllun o gamau gweithredu i'w cymryd a dylai'r cyngor fynd ati'n rhagweithiol i roi'r cynllun ar waith.

Mae lle i'r cyngor gofnodi camau gweithredu allweddol arfaethedig yn y pecyn cymorth ei hun, yn ogystal â llawer o adnoddau defnyddiol a all helpu i gymryd camau mewn perthynas â chanfyddiadau'r prawf iechyd a'r hunanwerthusiad.

Dylai'r cyngor adolygu'r canfyddiadau yn rheolaidd ac ailadrodd y prosesau hyn o bryd i'w gilydd. Efallai y bydd y cyngor am ei gynnwys fel eitem safonol ar agenda'r cyfarfod blynyddol neu'r cyfarfod a gynhelir ym mis Mehefin i gymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol, neu ei gynnwys ar ei gynllun prosiectau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd y casgliadau y deuir iddynt ar ôl cwblhau'r pecyn cymorth hefyd yn llywio agweddau eraill ar waith y cyngor. Er enghraifft:

Adroddiadau blynyddol

Bydd cwblhau'r pecyn cymorth hwn yn helpu i baratoi adroddiad blynyddol y cyngor fel sy'n ofynnol gan adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae adroddiadau blynyddol yn nodi blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor yn ystod y flwyddyn, a bydd y pecyn cymorth wrth reswm yn helpu'r cyngor i adolygu'r pwyntiau hyn, yn ogystal ag ystyried blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Cynlluniau hyfforddi

Yn ogystal, mae dyletswydd ar gynghorau cymuned a thref o dan adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i ystyried hyfforddiant i gynghorwyr a staff cynghorau cymuned o 5 Mai 2022, cyhoeddi eu cynlluniau hyfforddi'r cyngor

cyntaf erbyn 5 Tachwedd 2022, a chreu cynllun hyfforddi newydd o fewn tri mis i bob etholiad llywodraeth leol cyffredin dilynol fan bellaf. Nid sicrhau bod pob un cynghorydd o reidrwydd yn cael hyfforddiant ar yr un pynciau yw'r bwriad, ond ceisio creu sefyllfa lle y bydd y cynghorwyr fel grŵp, a'r staff at ei gilydd, yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen arnynt i weithredu'n effeithiol. Bydd cwblhau'r pecyn cymorth hwn yn helpu'r cyngor i ystyried pa hyfforddiant y dylid rhoi blaenoriaeth iddo er mwyn sicrhau bod ganddo drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol effeithiol ar waith.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Bydd cwblhau'r pecyn cymorth yn ddefnyddiol i'r cyngor wrth gwblhau ei ddatganiad a'i ffurflen llywodraethu blynyddol i'w cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Pŵer cymhwysedd cyffredinol

Mae Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gwneud darpariaeth i gynghorau cymuned a thref cymwys arfer pŵer cymhwysedd cyffredinol, gyda'r nod o sicrhau llywodraeth leol fwy effeithiol, galluog ac arloesol. Bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i gynghorau cymwys weithredu er budd pennaf eu cymunedau, cynhyrchu arbedion a sicrhau gwerth am arian. Byddant hefyd yn gallu codi arian drwy godi ffi am wasanaethau dewisol ac i fasnachu.

Mae'r amodau y mae'n rhaid i gynghorau cymuned eu bodloni er mwyn gallu penderfynu eu bod yn ‘gyngor cymuned cymwys’ fel a ganlyn:

- datganwyd bod o leiaf ddau draean o gyfanswm aelodau'r cyngor wedi'u hethol, boed mewn etholiad cyffredin neu mewn isetholiad;
- mae clerc y cyngor yn dal unrhyw gymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster o fath a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau;
- mae'r cyngor yn bodloni'r amod archwilio.

Rhan 1: Y prawf iechyd

Cyflwyniad a sut i'w ddefnyddio

Bwriedir i'r prawf iechyd hwn gael ei gwblhau gan y clerc, gan weithio gyda'r cadeirydd neu grŵp bach o aelodau fel y bo'n briodol, i asesu a oes trefniadau a pholisïau llywodraethu a rheolaeth ariannol **sylfaenol** ac ati ar waith, tynnu sylw at unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd ac adrodd yn ôl i'r cyngor llawn neu bwyllgor dynodedig.

Mae'r prawf iechyd wedi'i rannu'n bum thema allweddol, sef:

- Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol
- Arweinyddiaeth a phobl
- Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau
- Prosesau busnes
- Adnoddau a rheolaeth ariannol

Mae gan bob thema gyfres o ddatganiadau sy'n gofyn am ateb cadarnhaol neu negyddol yn unig er mwyn nodi a yw'r trefniant hwnnw ar waith gan y cyngor.

Lle y bo'n berthnasol, mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys wrth ymyl y datganiad. Cliciwch ar unrhyw destun wedi'i danlinellu yn y golofn rhagor o wybodaeth i gael gafael ar adnoddau ychwanegol.

Lle mae datganiad yn adlewyrchu rhwymedigaeth statudol, mae'r datganiad wedi'i arlliwio'n las fel y gellir cyfeirio ato'n hawdd.

Dylid defnyddio'r golofn olaf yn y prawf iechyd i nodi'r asesiad o sefyllfa'r cyngor mewn perthynas â'r datganiad, ynghyd â manylion unrhyw gamau gweithredu gofynnol a pha mor gyflym y byddai angen rhoi'r cam gweithredu ar waith.

Mae lle gwag ar ddiwedd pob thema i grynhoi'r camau gweithredu ar gyfer y thema honno, a lle gwag ar ddiwedd y prawf iechyd i grynhoi'r camau gweithredu allweddol i'w cymryd o ganlyniad i Ran 1 – y prawf iechyd mewn un man.

Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol

Mae cyngor cymuned a thref yn darparu arweinyddiaeth gymunedol. Wrth arfer y rôl hon, bydd yn cael budd o weledigaeth glir ar gyfer ei gymuned, wedi'i datblygu mewn partneriaeth / drwy ymgynghori â phob rhan o'r gymuned. Bydd y broses hon yn llywio cynghorau, cyllidebau a gweithgareddau'r cyngor er mwyn sicrhau bod y cyngor yn gweithio gyda'r gymuned ac er ei budd.

	Rhwymedigaeth statudol

Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol			
Datganiad	**Ar waith? (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
Mae gan y cyngor weledigaeth a chynllun clir ar gyfer ei gymuned			
A.1 Mae'r cyngor wedi cytuno ar weledigaeth a datganiad o ddiben		Bydd meddu ar weledigaeth a diben clir y bydd pob aelod wedi cytuno arnynt yn helpu eich cyngor i gyflawni ar ran ei gymuned.	
A.2 Mae'r cyngor wedi paratoi a chyhoeddi cynllun bioamrywiaeth ac adroddiadau ar y camau a gymerwyd i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau bob tair blynedd.		Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 6 Mae dyletswydd ar gynghorau i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau, ac mae'n rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud a chyflwyno adroddiad ar y camau gweithredu a gymerwyd i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau bob tair blynedd. Gweler Cyflwyniad i Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a	

Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol			
Datganiad	**Ar waith? (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
		Chydnerthedd Ecosystemau; Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Rhan 1: Canllawiau ar gyfer Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau – Cwestiynau Cyffredin; Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: canllawiau adrodd; Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: gofynion adrodd cwestiynau cyffredin; Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: templed adrodd; ac Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: templed adrodd enghreifftiol. Cynlluniau ac adroddiadau enghreifftiol o'r rownd adrodd gyntaf: Cyngor Cymuned a Thref Abertyleri a Llanhiledd; Cyngor Cymuned a Thref Llan-ffwyst Fawr	
A.3 Mae'r cyngor wedi cwblhau adroddiad blynyddol ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol		Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Adran 40 yn gosod dyletswydd ar rai cynghorau cymuned a thref penodol i gymryd yr holl gamau rhesymol i gyflawni'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol sydd ar waith yn eu hardaloedd. Dim ond os oedd ei incwm	

Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol			
Datganiad	**Ar waith? (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
		neu wariant gros yn £200,000 o leiaf ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol cyn y flwyddyn y cyhoeddir y cynllun llesiant lleol y bydd cyngor cymuned neu dref yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno.	
A.4 Mae'r cyngor wedi paratoi adroddiad blynyddol		Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – Adran 52 O fis Ebrill 2022, mae dyletswydd ar gynghorau cymuned a thref i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor. Cyflwynwyd canllawiau statudol ar y ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol.	

Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol - Crynodeb o'r camau gweithredu

Crynodeb o'r camau gweithredu	Gan bwy	Erbyn pryd
•	•	•

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl

Dylai'r cyngor barchu gwerthoedd tryloywder a bod yn agored a chydymffurfio â'r safonau a'r mathau o ymddygiad a bennwyd ar gyfer pob cynghorydd fel y'u nodir yn y cod ymddygiad, a'u modelu. Wrth arwain ei gymuned, dylai'r cyngor fod yn ymrwymedig i wella ei allu a'i adnoddau fel sy'n gymesur â'i amrediad o weithrediadau a graddfa'r gweithrediadau hynny.

Cyflogeion yw prif ased unrhyw gyngor ac mae'n bwysig ymddiried ynddynt a'u parchu i gyflawni eu rolau hyd eithaf eu gallu o fewn amgylchedd gwaith diogel. Mae hyfforddi a datblygu cyflogeion yn hollbwysig, yn ogystal â sicrhau bod systemau priodol ar waith i ddarparu gwobrau, cydnabyddiaeth ac atebolrwydd digonol o fewn fframwaith o bolisïau cyflogaeth effeithiol.

	Rhwymedigaeth statudol

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
Mae'r cyngor yn darparu arweinyddiaeth i'w aelodau a'i staff			
B.1 Mae'r cyngor wedi mabwysiadu cod ymddygiad		Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru: Canllaw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dylai'r cyngor gofnodi'n ffurfiol mewn cofnodion ei fod wedi mabwysiadu cod ymddygiad yn seiliedig ar y cod ymddygiad enghreifftiol.	
B.2 Mae pob cynghorydd wedi		Rhaid llofnodi datganiad derbyn swydd ffurfiol cyn y gall unigolyn weithredu fel aelod o gyngor cymuned a thref.	

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
llofnodi datganiad derbyn swydd ffurfiol			
B.3 Mae pob cynghorydd wedi cael copi o'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y cyngor			
B.4 Mae gan bob cynghorydd gyfeiriad e-bost y cyngor neu gyfeiriad e-bost ar wahân ar gyfer busnes y cyngor			
B.5 Mae pob cynghorydd wedi cael hyfforddiant ar ei rôl a chaiff anghenion hyfforddiant eu hadolygu'n rheolaidd		Mae Un Llais Cymru, Cymorth Cynllunio Cymru a'r prif gynghorau yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i hyfforddi aelodau mewn perthynas â'u rolau. Rhaid i'r cyngor ddatblygu cynllun hyfforddi a chadw cofnod o'r hyfforddiant a gafwyd. Mae templed cynllun hyfforddi ar gael ar gais i aelodau Un Llais Cymru.	
B.6 Gwneir pob taliad i gynghorwyr yn unol â'r lefelau a bennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar		Mae adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'i ganllaw ar daliadau i aelodau etholedig ar gael ar ei wefan.	

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
Gydnabyddiaeth Ariannol			
B.7 Cyhoeddir datganiad o daliadau i gynghorwyr erbyn 30 Medi bob blwyddyn yn nodi'r taliadau a wnaed i aelodau etholedig yn ystod blwyddyn flaenorol y cyngor		Rhaid i gynghorau cymuned a thref gyhoeddi datganiad o daliadau yn nodi'r holl daliadau a wnaed i aelodau etholedig yn ystod blwyddyn flaenorol y cyngor. Rhaid cofnodi lle na wnaed unrhyw daliadau hefyd. Gweler canllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.	
Mae'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflogaeth			
B.8 Mae gan bob cyflogai gontract cyflogaeth ysgrifenedig sy'n nodi telerau ei gyflogaeth		Gweler ACAS – What an employment contract is Mae gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol gontractau cyflogaeth enghreifftiol i glercod sydd ar gael i'w haelodau.	
B.9 Mae gan bob cyflogai ddisgrifiad swydd cyfredol		Gall Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol roi arweiniad i gynghorau sy'n aelodau mewn perthynas â pharatoi disgrifiad swydd a manyleb swydd.	
B.10 Caiff unrhyw newidiadau i delerau ac amodau, gan gynnwys codiadau		Rhaid i gynghorau sicrhau y caiff pob newid i delerau ac amodau ei gymeradwyo a'i gofnodi'n briodol.	

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
cyflog, eu cofnodi a'u cymeradwyo gan y cyngor			
B.11 Mae pob aelod o'r staff wedi cael copi o'r cod ymddygiad i gyflogeion		Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Llywodraeth Leol Cymwys) (Cymru) 2001	
B.12 Mae gan y cyngor bolisïau cyflogaeth craidd ar waith, er enghraifft: • Polisi Mabwysiadu a Thadolaeth • Polisi Camddefnyddio Alcohol, Cyffuriau a Sylweddau • Polisi Gwyliau Blynyddol • Cynllun Arfarnu • Bwlio ac Aflonyddu • Polisi Galluogrwydd		Gall Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ddarparu cyfres o bolisïau a gweithdrefnau i gynghorau sy'n aelodau. Mae gwefan ACAS hefyd yn cynnwys amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau enghreifftiol	

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
• Cod Ymddygiad i Gyflogeion • Polisi Urddas yn y Gwaith • Polisi a Gweithdrefn Disgyblu a Chwynion • Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth • Polisi Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith • Polisi Absenoldeb Mamolaeth • Protocol Cysylltiadau Aelodau / Swyddogion • Gweithdrefn Recriwtio • Polisi Absenoldeb Rhiant a Rennir • Polisi Rheoli Presenoldeb			

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
• Polisi Rheoli Straen • Polisi Amser i Ffwrdd yn Lle Tâl • Polisi Hyfforddiant • Polisi Chwythu'r Chwiban			
B.13 Mae'r cyngor wedi'i gofrestru fel cyflogwr â CThEM		Rhaid i bob cyngor weithredu trefniadau TWE onid oes unrhyw staff: • yn ennill uwchlaw'r trothwy yswiriant gwladol is; **ac** • yn meddu ar unrhyw ffynhonnell incwm arall. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu mai prin iawn fydd y clercod, hyd yn oed clercod cynghorau bach, nad ydynt wedi'u heithrio rhag trefniadau TWE. Mae ffynonellau incwm eraill yn cynnwys incwm o bensiynau yn ogystal â swyddi eraill. Gweler GOV.UK PAYE and payroll for employers	
B.14 Telir pob taliad goramser drwy broses arferol y		Rhaid i drefniadau TWE fod yn berthnasol i bob ychwanegiad at gyflog	

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
gyflogres a bydd trefniadau TWE yn berthnasol			
B.15 Codir treth ar unrhyw lwfansau ychwanegol a delir i staff lle y bo'n briodol		Caiff y lwfansau swm penodedig ar gyfer gweithio gartref eu cyfyngu gan CThEM. Mae taliadau uwchlaw'r swm hwn yn drethadwy a dylid eu trethu drwy drefniadau TWE neu eu cofnodi ar ffurflen P11D. Codir treth hefyd ar daliadau milltiredd pan fyddant yn mynd y tu hwnt i'r lwfansau milltiredd a bennir gan CThEM – sef 45c y filltir ar hyn o bryd.	
B.16 Mae'r cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth pensiynau		Gweler gwefan y Rheoleiddiwr Pensiynau	
Mae'r cyngor yn rhoi'r cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen ar ei staff i gyflawni eu rôl			
B.17 Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer ei rôl		Rhaid i'r cyngor ddatblygu cynllun hyfforddi a chadw cofnod o'r hyfforddiant a gafwyd. Mae templed cynllun hyfforddi ar gael ar gais i aelodau Un Llais Cymru.	
B.18 Mae gan bob aelod o'r staff gyfeiriadau e-bost y cyngor a mynediad at systemau TG y cyngor		Ni ddylai staff y cyngor ddefnyddio cyfeiriadau e-bost personol ar gyfer gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cyngor, na chadw dogfennau'r cyngor ar gyfrifiaduron personol, er mwyn sicrhau diogelwch gwybodaeth.	

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl - Crynodeb o'r camau gweithredu

Crynodeb o'r camau gweithredu	Gan bwy	Erbyn pryd
•	•	•

Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau

Mae cynghorau cymuned a thref yn mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â'u cymunedau, eu cynnwys ac ymgynghori â nhw. Mae cyngor effeithiol yn deall anghenion a dymuniadau ei gymuned (pobl a lleoedd), ac yn ymwybodol o'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae'n ei wneud. Dylai cynghorau anelu at sicrhau nad oes neb yn teimlo dan anfantais, a'u bod yn ymgysylltu â phob grŵp sy'n rhan o'r gymuned.

Mae partneriaeth yn gytundeb i wneud rhywbeth gyda'ch gilydd a fydd o fudd i bawb dan sylw, gan gyflawni canlyniadau na ellid eu cyflawni gan bartner unigol ar ei ben ei hun a lleihau achosion o ddyblygu ymdrechion. Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn golygu y gellir darparu gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig, megis drwy nodau cyffredin a/neu drwy rannu adnoddau.

	Rhwymedigaeth statudol

Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
Mae'r cyngor yn ymgysylltu â'i gymuned			
C.1 Mae gan y cyngor strategaeth ymgysylltu â'r gymuned y cytunwyd arni		Mae strategaeth ymgysylltu â'r gymuned yn nodi sut y bydd y cyngor yn deall ei gymuned, yn cynnwys y gymuned yn ei waith ac yn cyfathrebu â'i etholwyr.	
C.2 Caiff y strategaeth ymgysylltu â'r gymuned ei hadolygu'n rheolaidd			

Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
C.3 Mae'r cyngor yn cydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011		Disgwylir i'r cyngor drin y Gymraeg mewn ffordd resymol a chymesur wrth ymdrin â'r cyhoedd. Mae cynllun wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi egwyddor a chyd-destun y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni, a sut y caiff hyn ei gymhwyso at weithgareddau'r cyngor ac yn y gweithle. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Rhan 4 Pennod 1: Y ddyletswydd i gydymffurfio â safonau – Comisiynydd y Gymraeg – Mesur y Gymraeg	
C.4 Mae'r cyngor yn gwneud darpariaeth i gyfieithu dogfennau pan fo angen			
Mae'r cyngor yn cyfathrebu â'i bartneriaid a'r gymuned			
C.5 Mae gan y cyngor bresenoldeb electronig / gwefan		Rhaid i gyngor cymuned neu dref sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael yn electronig fel y nodir yn adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013, a chanllawiau cysylltiedig.	
C.6 Mae'r cyngor yn cyhoeddi'r canlynol yn electronig a) Gwybodaeth am sut i gysylltu ag ef		Gweler Llywodraeth Cymru Canllawiau Statudol: Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref Mae Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys	

Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
ac, os yw'n wahanol, â'i glerc, gan gynnwys – • rhif ffôn • cyfeiriad post • cyfeiriad e-bost b) gwybodaeth am bob un o'i aelodau, gan gynnwys – • enw'r aelod • sut y gellir cysylltu â'r aelod • cysylltiad yr aelod ag unrhyw blaid (os yw'n berthnasol) • y ward y mae'r aelod yn ei chynrychioli (lle y bo'n berthnasol) • unrhyw swydd a ddelir gan yr aelod yn y cyngor • unrhyw un o bwyllgorau'r cyngor y mae'r aelod yn perthyn iddo		newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ymwneud â hysbysiadau gan gynghorau cymuned, e.e. hysbysiadau am gyfarfodydd a'r trefniadau ar eu cyfer a chyhoeddi nodyn byr o fewn 7 diwrnod i gyfarfodydd y cyngor. Dylid eu darllen ar y cyd ag adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned sicrhau bod gwybodaeth a dogfennau penodol (gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd) ar gael yn electronig.	

Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
c) cofnodion gweithrediadau cyfarfodydd y cyngor a (cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol) unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cofnodion d) unrhyw ddatganiad archwiliedig o gyfrifon y cyngor			
C.7 Mae'r cyngor wedi cyhoeddi polisi cyfryngau cymdeithasol ar ei wefan			
C.8 Mae gan y cyngor broses y cytunwyd arni ar gyfer ymdrin â chwynion, sydd wedi'i chyhoeddi ar ei wefan		Gweler y broses enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion sydd ar gael gan yr Awdurdod Safonau Cwynion Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus	

Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau - Crynodeb o'r camau gweithredu

Crynodeb o'r camau gweithredu	Gan bwy	Erbyn pryd
•	•	•

Thema D – Prosesau busnes

Ystyr proses yw cyfres o gamau gweithredu a gymerir i gyflawni nod penodol. Bydd gan gyngor sy'n cael ei redeg a'i reoli'n dda brosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith ar gyfer meysydd busnes allweddol. Mae'r prosesau hyn yn rhoi strwythur cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau, gyda'r nod o wneud y canlynol:

- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol;
- cyflawni deilliannau neu ganlyniadau cyson;
- lliniaru risg drwy sicrhau y caiff tasgau eu cyflawni'n briodol.

Mae prosesau busnes yn debygol o ddarparu dangosyddion allweddol mewn perthynas â chryfder trefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu cyngor cymuned neu dref. Bydd y canlynol yn helpu eich cyngor i fyfyrio ar feysydd lle mae gan gyngor brosesau sefydledig ar waith fel arfer, ac yn eich helpu i benderfynu a oes angen i chi gyflwyno prosesau newydd neu brosesau gwahanol.

	Rhwymedigaeth statudol

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
Mae'r cyngor yn gweithredu safonau atebolrwydd a llywodraeth uchel mewn ffordd agored a thryloyw			
D.1 Mae gan y cyngor gyfres o reolau sefydlog er mwyn helpu i lywodraethu'r ffordd y caiff cyfarfodydd eu cynnal,		Mae cynghorau yn destun trefniadau yn ymwneud â chynnal cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau fel y'u nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, yn arbennig atodlen 12. Gwnaeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddiwygiadau i	

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
ac mae'r rheolau hyn wedi'u cyhoeddi ar ei wefan		atodlen 12 i Ddeddf 1972 y bydd angen i gynghorau fod yn ymwybodol ohonynt hefyd, gweler yn benodol atodlen 4 i Ddeddf 2021. Yn ogystal, argymhellir yn gryf y dylai cyngor greu ei reolau sefydlog ei hun. Gall Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ddarparu rheolau sefydlog enghreifftiol i gynghorau sy'n aelodau. Mae'n **rhaid** bod gan gynghorau reolau sefydlog mewn perthynas â chontractau i gyflenwi nwyddau a deunyddiau neu ymgymryd â gwaith (gweler Deddf Llywodraeth Leol 1972, a135).	
D.2 Caiff datganiadau cynghorwyr o fuddiannau personol a rhagfarnus eu cofnodi yn y cofnodion a'u cyhoeddi ar gofrestr dreigl ar wahân ar ei wefan		Gweler Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru: Canllaw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	
D.3 Mae'r cyngor wedi cyhoeddi rhestr o gyfarfodydd ar ei wefan		Mae rhoi cylch blynyddol o gyfarfodydd y cyngor a'r pwyllgorau ar waith er mwyn hwyluso trefniadau busnes yn cefnogi democratiaeth leol ac yn dangos tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus.	

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
D.4 Mae'r cyngor yn cynnal cyfarfod blynyddol bob mis Mai		Gweler Deddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 12, Rhan IV, adran 23 Noder hefyd y ddyletswydd i gynnal cyfarfod blynyddol o fewn 14 diwrnod i gynnal etholiad arferol ar gyfer cynghorwyr cymuned. Dylai'r cadeirydd lofnodi datganiad derbyn swydd.	
D.5 Mae gan y cyngor gylch gorchwyl wedi'i ddiffinio'n glir (fel y bo'n briodol) ar waith lle mae'n dosbarthu swyddogaethau i bwyllgorau sefydlog. Dylid cyhoeddi'r cylch gorchwyl ar wefan y cyngor		Gweler Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 101	
D.6 Mae'r cyngor yn cyhoeddi pob agenda a phapur cefndir ategol ar ei wefan o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod.		Gweler Deddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 12, Rhan IV, adran 26	
D.7 Cyflwynir gŵys i gynghorwyr a chânt		Gweler Deddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 12, Rhan IV, adran 26	

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
gopïau o bapurau'r agenda a chofnodion drafft o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod			
D.8 Gall aelodau o'r wasg a'r cyhoedd ddod i gyfarfodydd y cyngor a chânt gopïau o bapurau'r agenda		Gweler Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, a diwygiadau i'r Ddeddf honno y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	
D.9 Mae'r cyngor yn cyhoeddi holl gofnodion y cyngor / pwyllgorau / is-bwyllgorau ar ei wefan		Gweler Llywodraeth Cymru Canllawiau Statudol: Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref Mae Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ymwneud â hysbysiadau gan gynghorau cymuned, e.e. hysbysiadau am gyfarfodydd a'r trefniadau ar eu cyfer a chyhoeddi nodyn byr o fewn 7 diwrnod i gyfarfodydd y cyngor. Dylid eu darllen ar y cyd ag adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned sicrhau bod gwybodaeth a dogfennau penodol (gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd) ar gael yn electronig.	

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
D.10 Mae'r cyngor yn gwneud ac yn cyhoeddi trefniadau ar gyfer presenoldeb aml-leoliad yng nghyfarfodydd y cyngor cymuned a thref		Gweler adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a phennod 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref	
D.11 Mae gan y cyngor gynllun cymeradwy ar gyfer dirprwyo i bwyllgorau a'r clerc, sydd wedi'i gyhoeddi ar ei wefan		Rhaid i'r cynllun hwn ddarparu cylch gorchwyl clir ar gyfer meysydd cyfrifoldeb i bwyllgorau ac i helpu'r clerc i wneud penderfyniadau brys rhwng cylchoedd cyfarfodydd.	
D.12 Mae gan y cyngor gyfansoddiad wedi'i ddogfennu sy'n disgrifio ei drefniadau llywodraethu cyffredinol		Mae cyfansoddiad cyngor yn nodi'r rheolau sy'n llywodraethu busnes y cyngor a'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn gwella atebolrwydd a thryloywder lleol. Ceir enghraifft o gyfansoddiad cyngor ar wefan Cyngor Gwledig Llanelli.	
D.13 Mae'r cyngor yn llunio ac yn cymeradwyo cynllun busnes blynyddol			
D.14 Mae gan y cyngor gynllun		Mae'n rhaid bod gan y cyngor ddogfennaeth ar waith er mwyn cydymffurfio â Deddf	

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
cyhoeddiadau rhyddid gwybodaeth		Rhyddid Gwybodaeth 2000 – Dyletswydd i gael cynllun cyhoeddiadau Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi llunio pecyn cymorth hunanasesu Rhyddid Gwybodaeth	
D.15 Mae gan y cyngor bolisi diogelu gwybodaeth a data cyfredol, sydd wedi'i gyhoeddi ar ei wefan		Rhaid i'r cyngor gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR). Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllaw ar Ddiogelu Data a chanllaw ar GDPR ar ei wefan. Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth restr wirio er mwyn helpu i gydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu data Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi llunio rhestr wirio 'Pa mor ddiogel yw eich data personol?'	
D.16 Mae'r cyngor wedi cwblhau a bodloni gofynion rhestr wirio hunanasesu diogelu data'r Comisiynydd		Mae hunanasesiad diogelu data ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.	

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
Gwybodaeth ar gyfer sefydliadau			
D.17 Mae gan y cyngor Bolisi Diogelwch Gwybodaeth TG cyfredol, sydd wedi'i rannu â chynghorwyr ac aelodau o staff			
D.18 Mae'r cyngor wedi cyhoeddi cyfres o hysbysiadau preifatrwydd, gohebiaeth e-bost ac enghreifftiau eraill o ohebiaeth â chleientiaid ar ei wefan		Mae polisïau a hysbysiadau preifatrwydd enghreifftiol ar gael i aelodau gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.	
D.19 Mae'r cyngor wedi cynnal archwiliad data er mwyn asesu pa wybodaeth sydd ganddo			
D.20 Mae'r cyngor wedi cyhoeddi polisi cadw dogfennau ar ei wefan			
D.21 O bryd i'w gilydd, mae'r cyngor yn clirio			

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
gwybodaeth nad oes angen iddo ei chadw mwyach			
D.22 Mae'r cyngor yn cadw cofnodion gwaredu gwybodaeth			
D.23 Mae'r cyngor wedi cyhoeddi datganiad hygyrchedd ar ei wefan ac mae'n cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wefan yn parhau i gydymffurfio		Gweler Rheoliadau Hygyrchedd y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau ar gyfer Dyfeisiau Symudol) 2018 Gweler Understanding accessibility requirements for public sector bodies	
D.24 Mae gan y cyngor gynllun parhad busnes i'w helpu i barhau i weithredu pe bai'n colli eiddo neu'n dioddef difrod i eiddo		Gall Un Llais Cymru ddarparu amrywiaeth o bolisïau enghreifftiol i gynghorau sy'n aelodau ar sail ymgynghori.	
D.25 Mae gan y cyngor gynllun argyfwng er mwyn helpu i gefnogi cydnerthedd cymunedol, ac mae wedi rhannu'r cynllun			

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
â'r Awdurdod Cynllunio Brys			
Mae'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant			
D.26 Mae gan y cyngor Ddatganiad Polisi Iechyd a Diogelwch a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith		Rhaid i gyflogwyr wneud y canlynol: Darparu amgylchedd gwaith diogel i gyflogeion a phobl eraill y mae eu gweithredoedd yn effeithio arnynt, gan gynnwys contractwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Rhaid i gyflogeion wneud y canlynol: Ymddwyn yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch y cyngor a'i weithdrefnau ategol a chydymffurfio â'r holl reoliadau statudol a gofynion cyfreithiol Iechyd a Diogelwch. Gweler gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	
D.27 Mae cyllideb flynyddol ar waith i fodloni gofynion iechyd a diogelwch			
D.28 Mae gan y cyngor asesiadau risg wedi'u dogfennu ar waith ac mae'n cynnal adolygiadau rheolaidd (o leiaf unwaith y			

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
flwyddyn) o'i holl asesiadau risg er mwyn nodi peryglon a digonolrwydd mesurau rheoli presennol ar draws ei holl weithgareddau a meysydd gwasanaeth			
D.29 Mae'r cyngor wedi datblygu systemau mewnol i reoli'r mesurau rheoli a nodir yn yr asesiadau risg mewn perthynas ag eiddo a gweithgareddau'r cyngor, ac mae'n llunio cynllun gweithredu blynyddol a gaiff ei adolygu a'i gyflwyno i'r cyngor			
D.30 Mae gan y cyngor lyfr cofnodi damweiniau a gweithdrefnau ymchwilio cysylltiedig			

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
D.31 Mae gan y cyngor bolisi rheoli straen			
D.32 Mae gan y cyngor asesiad risg straen			
D.33 Mae'r cyngor yn hwyluso ac yn rheoli digwyddiadau cymunedol ac mae ganddo gynllun rheoli digwyddiadau er mwyn rheoleiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â digwyddiadau yn ddiogel yn gyson			
Mae'r cyngor yn deall sut i reoli ei asedau a'i gyfleusterau			
D.34 Mae'r cyngor yn cadw cofrestr o'i asedau		Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, Rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gadw cofnod o bob ased a rhwymedigaeth a ddelir ganddo.	
D.35 Mae'r cyngor yn archwilio ei asedau'n rheolaidd ac yn cynnal asesiadau risg ohonynt ac yn paratoi		Mae angen i'r cyngor sicrhau bod ei asedau cymunedol yn ddiogel i'w defnyddio gan gynghorwyr, swyddogion a'r cyhoedd.	

Thema D – Prosesau busnes			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau a chamau gweithredu**
cynlluniau cynnal a chadw / atgyweirio			
D.36 Mae'r cyngor yn paratoi achos busnes cyn bwrw ati i gaffael asedau gwerth uchel		Dylai'r cyngor sicrhau ei fod yn deall goblygiadau ac effeithiau caffael asedau yn llawn. Gall fod costau cynnal a chadw a rhedeg parhaus yn gysylltiedig â'r broses ac mae'n bosibl y bydd angen i'r cyngor fenthyg arian i ariannu'r prosiectau. Canllawiau Llywodraeth Cymru – Cymeradwyaethau benthyca: canllawiau ar gyfer cynghorau tref a chymuned	
D.37 Mae gan y cyngor drefniadau yswiriant digonol i ddiogelu cyflogeion, adeiladau, eiddo arall, arian parod ac aelodau o'r cyhoedd.		Rhaid bod trefniadau yswiriant ar waith i ddiogelu cyflogeion, aelodau o'r cyhoedd, pob adeilad, cynnwys a digwyddiadau. Dylid dosbarthu dogfennau yswiriant i'r cyngor llawn eu cymeradwyo. Rhaid arddangos tystysgrifau yswiriant mewn man amlwg ar bob un o safleoedd y cyngor.	

Thema D – Prosesau busnes - Crynodeb o'r camau gweithredu

Crynodeb o'r camau gweithredu	Gan bwy	Erbyn pryd
•	•	•

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol

Mae cynghorau cymuned a thref yn gyfrifol am reoli arian ac asedau cyhoeddus. Dylai fod gan bob cyngor drefniadau llywodraethu ariannol priodol ar waith i sicrhau diogelwch yr adnoddau hyn a sicrhau ei fod yn cyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.

Mae'r thema hon yn ystyried y trefniadau y mae'r cyngor wedi'u rhoi ar waith i reoli ei adnoddau, ac mae'n ymdrin â'r asedau a ddelir a chyllid y cyngor. Bydd y cwestiynau yma yn rhoi hyder bod y gweithdrefnau statudol ac anstatudol ar gyfer rheolaeth ariannol dda ar waith, neu'n tynnu sylw at feysydd lle mae angen i'r cyngor wneud gwelliannau.

	Rhwymedigaeth statudol

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
Mae gan y cyngor systemau cyfrifyddu ac archwilio addas			
E.1 Mae'r cyngor wedi penodi swyddog ariannol cyfrifol yn ffurfiol		Mae adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion, sef y swyddog cyllid cyfrifol, yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Gweler pennod 4 o Governance and Accountability for Local Councils in Wales	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
		– A Practitioner's Guide am ragor o arweiniad.	
E.2 Mae gan y cyngor gyfriflyfr/llyfr arian parod cyflawn a chyfredol		Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Mae Rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion cyfrifyddu'r cyngor: (a) bod yn ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion corff perthnasol ac i alluogi'r swyddog ariannol cyfrifol i baratoi'r datganiadau cyfrifyddu; (b) cynnwys y canlynol — (i) cofnodion o ddydd i ddydd o'r holl symiau o arian a gafwyd ac a wariwyd gan y corff a'r materion y mae'r cyfrifon incwm a gwariant neu dderbynebion a thaliadau yn ymwneud â nhw; (ii) cofnod o asedau a rhwymedigaethau'r corff; (iii) cofnod o incwm a gwariant y corff mewn perthynas â'r hawliadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, ganddo am gyfraniad, grant neu gymhorthdal.	
E.3 Mae gan y cyngor weithdrefnau cyfrifyddu wedi'u dogfennu'n glir, gan gynnwys unrhyw		Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog ariannol cyfrifol bennu systemau rheoli cyfrifyddu'r cyngor a sicrhau y caiff y systemau rheoli cyfrifyddu eu dilyn.	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
drefniadau ar gyfer rhannu dyletswyddau a rhestr o gofnodion allweddol		Rhaid i'r systemau rheoli cyfrifyddu gynnwys y canlynol – (a) mesurau i sicrhau y caiff trafodion ariannol eu cofnodi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mor gywir ac sy'n rhesymol bosibl, mesurau i atal a chanfod gwallau ac achosion o dwyll, a'r gallu i ail-greu unrhyw gofnodion a gaiff eu colli; (b) nodi dyletswyddau'r swyddogion sy'n ymdrin â thrafodion ariannol a rhannu cyfrifoldebau'r swyddogion hynny mewn perthynas â thrafodion sylweddol; (c) gweithdrefnau i sicrhau na chaiff symiau na ellir eu casglu, gan gynnwys drwgddyledion, eu diystyru oni chânt eu cymeradwyo gan y swyddog ariannol cyfrifol, neu aelod o staff yr unigolyn hwnnw a enwebwyd at y diben hwn, ac y caiff y gymeradwyaeth ei dangos yn y cofnod cyfrifyddu; (d) mesurau i sicrhau y caiff risg ei rheoli'n briodol	
E.4 Mae gan y cyngor restr o'i gofnodion cyfrifyddu allweddol		Dylai cynghorau sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r holl gofnodion cyfrifyddu allweddol gan gynnwys, er enghraifft y gofrestr claddu, llyfrau sieciau, anfonebau,	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
		cofnodion y gyflogres, contractau (gan gynnwys contractau cyflogaeth)	
E.5 Mae trefniadau wedi'u dogfennu ar gyfer trosglwyddo dogfennau pan fydd y swyddog ariannol cyfrifol yn newid.		Rhaid i gynghorau sicrhau y caiff yr holl gofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys contractau, cofnodion y gyflogres, anfonebau ac ati, eu cadw'n ddiogel a bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trosglwyddo cofnodion pan fydd y clerc/swyddog ariannol cyfrifol yn newid. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan na fydd gan y cyngor ei swyddfa ei hun. Ni ddylai'r clerc gadw copi'r cyngor o gontract cyflogaeth y clerc lle nad oes gan y cyngor ei swyddfa ei hun.	
E.6 Mae gan y cyngor gofnod o'i gronfeydd wrth gefn wedi'u neilltuo a'i falansau ac mae'n monitro'r cofnod hwnnw ac yn sicrhau na chaiff praesept ei godi'n ddiangen		Gweler pennod 22 o Governance and Accountability for Local Councils in Wales – A practitioners guide (Argraffiad 2019) am arweiniad	
E.7 Cytunwyd ar amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r Datganiad		Bydd paratoi amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r datganiad blynyddol a chytuno ar yr amserlen honno yn galluogi'r cyngor i fodloni'r dyddiad cymeradwyo statudol, sef 30 Mehefin bob blwyddyn.	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
Blynyddol/datganiad o gyfrifon		Mae dogfennu'r trefniadau hyn hefyd yn helpu i drosglwyddo cyfrifoldebau rhwng swyddogion ariannol cyfrifol blaenorol a swyddogion ariannol cyfrifol newydd.	
E.8 Mae cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol yn eitem sefydlog ar yr agenda ar restr cyfarfodydd y cyngor, i'w gymeradwyo erbyn 30 Mehefin		Gweler Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, rheoliad 15 Bydd angen i aelodau ystyried yr amserlen statudol ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon a, lle na chaiff y dyddiadau statudol eu bodloni, ganfod y rheswm dros yr oedi a gwneud trefniadau i gymeradwyo'r cyfrifon cyn gynted â phosibl wedi hynny. Rhaid i aelodau gael y datganiad blynyddol llawn dri diwrnod cyn y cyfarfod. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor cyfan gymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu (a geir yn y Datganiad Blynyddol)	
E.9 Mae cynghorwyr yn cael tystiolaeth briodol i ategu'r honiadau llywodraethu a wneir		Ni ddylai cynghorwyr gymeradwyo'r datganiad blynyddol tan y byddant yn fodlon bod yr honiadau a wneir yn y datganiad llywodraethu blynyddol wedi'u	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
yn y datganiad llywodraethu blynyddol a geir yn y datganiad blynyddol		hategu gan dystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau'r atebion a roddwyd.	
E.10 Mae gan y cyngor gofrestr risg a gaiff ei hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn		Gweler pennod 9 o Governance and Accountability for Local Councils in Wales – A practitioners guide (Argraffiad 2019) am arweiniad Dylai fod gan y cyngor gynllun rheoli risg sy'n nodi pob risg sylweddol o ran gweithgareddau'r cyngor ac yn egluro sut y caiff risgiau o'r fath eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn yswiriant digonol i ddiogelu cyflogeion, adeiladau, arian parod ac aelodau o'r cyhoedd.	
E.11 Caiff yr archwilydd mewnol a benodir a'r cylch gorchwyl ar gyfer archwilio mewnol eu cymeradwyo gan y cyngor		Gweler pennod 11 ac atodiad 2 i Governance and Accountability for Local Councils in Wales – A practitioners guide (Argraffiad 2019)	
E.12 Caiff effeithiolrwydd y trefniadau archwilio mewnol ei adolygu o		Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Mae Rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
leiaf unwaith bob blwyddyn			
E.13 Mae'r cynghorwyr yn archwilio'r pecyn archwilio i'w anfon at Archwilydd Cyffredinol Cymru er mwyn cadarnhau cywirdeb y wybodaeth a roddir			
E.14 Caiff hawliau'r cyhoedd mewn perthynas â'r cyfrifon eu hysbysebu ar yr adegau priodol		Gweler Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Rheoliad 17	
E.15 Mae'r cyngor yn caniatáu i unigolion archwilio'r datganiad blynyddol neu'r datganiad o gyfrifon a'r cofnodion cyfrifyddu ategol a dogfennau eraill pan fydd y datganiad o gyfrifon wedi'i gymeradwyo gan y cyngor.		Gweler Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – rheoliad 17	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
E.16 Caiff y cynghorwyr gopi o adroddiad archwilio terfynol yr Archwilydd Cyffredinol a chopi o ddatganiad blynyddol ardystiedig Archwilydd Cyffredinol Cymru		Dylai'r cyngor sicrhau ei fod yn ymwybodol o ganlyniad yr archwiliad statudol ac unrhyw faterion a nodwyd fel y gellir gwella ei drefniadau neu gywiro gwallau ar gyfer blynyddoedd i ddod	
E.17 Caiff y datganiad o gyfrifon ei gyhoeddi ar ôl yr archwiliad allanol blynyddol, ynghyd ag adroddiad yr archwilydd		Gweler Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Rheoliad 18	
Mae gan y cyngor brosesau rheolaeth ariannol a chymorth ariannol addas			
E.18 Mae'r cyngor yn paratoi cyllideb fanwl bob blwyddyn cyn pennu'r praesept		Mae adran 50 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gyfrifo ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ac yn dynodi sut y dylid cyfrifo'r gofyniad cyllidebol Gweler pennod 6 o Governance and Accountability for Local Councils in Wales – A practitioners guide (Argraffiad 2019)	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
E.19 Caiff y gyllideb a'r gofyniad praesept eu cymeradwyo gan y cyngor			
E.20 Mae'r cyngor yn cael adroddiadau rheolaidd (misol/chwarterol) sy'n cymharu incwm a gwariant yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd, a lle y ceir gwahaniaethau rhwng ffigurau gwirioneddol a ffigurau'r gyllideb, mae'r cyngor yn sicrhau ei fod yn cael esboniadau manwl o'r gwahaniaethau		Gall monitro incwm a gwariant yn rheolaidd helpu cynghorau i nodi materion ariannol cyn iddynt ddod yn broblemau.	
E.21 Mae'r cyngor yn cael cysoniadau banc rheolaidd (misol/ chwarterol) ac yn eu hadolygu		Mae'r cysoniadau banc yn rheolaeth fewnol bwysig gan eu bod yn rhoi tystiolaeth o gyflawnder a chywirdeb y symiau a gofnodwyd yng nghofnodion cyfrifyddu'r cyngor. Dylid paratoi cysoniadau pa bryd bynnag y ceir cyfriflen banc, a dylid eu hadolygu er mwyn cadarnhau eu bod wedi'u paratoi'n gywir.	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
		Dylai adolygwyr geisio tystiolaeth ac esboniadau wrth gysoni eitemau.	
E.22 Ceir caniatâd gan Lywodraeth Cymru cyn ymrwymo i unrhyw drefniant benthyca hirdymor i ariannu gwariant cyfalaf		Rhaid i gynghorau gael caniatâd gan Lywodraeth Cymru cyn ymrwymo i drefniadau benthyca hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar wneud cais am gymeradwyaethau benthyca a ffurflen gais ar ei gwefan.	
E.23 Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal archwiliad mewnol o gofnodion cyfrifyddu'r cyngor a'i system rheolaeth fewnol, ac ar gyfer sicrhau y daw'r adroddiad archwilio mewnol i law cyn i'r cyngor gymeradwyo'r datganiad blynyddol		Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol	
E.24 Mae rheolau sefydlog penodol ar waith ar gyfer caffael cyflenwadau o nwyddau,		Mae adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lunio rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chontractau ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau ac ymgymryd â gwaith.	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
deunyddiau, gwaith a gwasanaethau		Rhaid i'r rheolau sefydlog wneud darpariaeth ar gyfer sicrhau cystadleuaeth a rheoleiddio'r ffordd y caiff tendrau eu gwahodd. Mae adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu ar gyfer eithrio contractau bach ac ar gyfer caniatáu eithriad ar gyfer achosion penodol. Gall Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ddarparu rheolau sefydlog enghreifftiol i aelodau.	
E.25 Mae'r cyngor yn adolygu trothwyon caffael yn ei reolau sefydlog a'i reoliadau ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol		Mae angen teilwra rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol enghreifftiol i ddiwallu anghenion y cyngor.	
E.26 Caiff eitemau o wariant sylweddol a phob contract eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau sefydlog / rheoliadau ariannol			

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
E.27 Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff eithriadau i'r rheolau sefydlog / rheoliadau ariannol eu cymhwyso		Rhaid dilyn rheolau sefydlog / rheoliadau ariannol fel mater o drefn. Anaml y disgwylir unrhyw eithriadau a dylid dogfennu / cofnodi'r rhesymau dros wyro yng nghofnodion y cyngor.	
E.28 Mae gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar waith ar gyfer gwneud taliadau i drydydd partïon a chyflogeion		Dylai fod gan y cyngor weithdrefnau wedi'u dogfennu'n glir ar gyfer awdurdodi a gwneud taliadau. Mae angen hyn er mwyn sicrhau'r canlynol: • Mai dim ond gyda chaniatâd y cyngor y caiff cyfrifon banc eu hagor • Y caiff debydau uniongyrchol ac archebion sefydlog eu hawdurdodi'n briodol • Bod terfynau a gweithdrefnau awdurdodi priodol ar waith er mwyn sicrhau mai dim ond taliadau cymeradwy a wneir • Y caiff mynediad at gronfeydd y cyngor ei ddiogelu pan fydd aelodau/swyddogion yn gadael	
E.29 Caiff taliadau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod		Mae cynnal adolygiad annibynnol o brosesau talu yn rheolaeth bwysig i leihau'r risg o dwyll neu wallau eraill.	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
y gweithdrefnau priodol wedi'u dilyn			
E.30 Caiff y broses o sefydlu taliadau a wneir drwy archebion sefydlog/debydau uniongyrchol banc a'r broses o wneud y taliadau hynny eu monitro		Mae archebion sefydlog a debydau uniongyrchol banc yn arwain at gyfres barhaus o daliadau a dylai'r cyngor sicrhau ei fod yn deall beth yw'r taliadau a lefel y taliadau a wneir ar y pryd.	
E.31 Mae polisi a gweithdrefn wedi'u dogfennu ar gyfer dyfarnu grantiau		Bydd mabwysiadu polisi a gweithdrefn benodedig ar gyfer dyfarnu grantiau yn helpu cynghorau i benderfynu rhwng ceisiadau gwahanol am gymorth. Gall cynghorau bennu meini prawf cymhwysedd allweddol, gosod terfynau ar y cymorth y gellir ei roi, a dynodi'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi ceisiadau am arian. Mae hefyd yn darparu llwybr clir o'r cais i'r adeg y dyfernir grant.	
E.32 Mae'r cyngor yn cyfrifo'r uchafswm y caniateir iddo ei wario bob blwyddyn o dan bŵer adran 137		Caiff y swm y caniateir i gynghorau ei wario ei gyfyngu i luosrif o'r etholwyr cofrestredig yn ystod y mis Ionawr yn union cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae angen i gynghorau sicrhau nad ydynt yn gwario mwy na'r swm a ganiateir. Caiff y swm a ganiateir ei gyhoeddi bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru.	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
		Noder – Pan fydd cyngor yn pasio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned cymwys at ddibenion y pŵer cymhwysedd cyffredinol, ni fydd adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gymwys i'r cyngor mwyach. Yn wahanol i adran 137, nid oes cyfyngiad ariannol ar y swm y caiff cyngor cymuned cymwys ei wario os yw'n arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Gweler pennod 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref	
E.33 Cyn gwneud penderfyniad i ddyfarnu grant ar gyfer cymorth ariannol, o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol, mae'r cyngor yn ystyried a yw'r grant a ddyfernir yn gymesur â'r budd i'r gymuned		Mae adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cymorth ariannol a roddir fod yn gymesur â'r budd i'r gymuned. Pan fo cyngor wedi pasio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned cymwys o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a bwriedir i'r pŵer cymhwysedd cyffredinol gael ei arfer, nid yw'r amodau o dan adran 137 yn gymwys. Gweler pennod 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
		Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref	
E.34 Cyn gwneud penderfyniad i ddyfarnu grant o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'r cyngor yn ystyried a oes ganddo bŵer penodol i wario'r arian hwnnw yn hytrach na chymhwyso pŵer adran 137, neu a oes gwaharddiad statudol ar wneud taliad o'r fath		Ni ellir cymhwyso'r pŵer amrywiol i wario lle y ceir darpariaeth statudol sy'n bodoli eisoes a fyddai'n caniatáu'r gwariant hwnnw. Yn ogystal, ni ellir cymhwyso'r pwerau hyn er mwyn osgoi gwaharddiad statudol ar y gwariant hwnnw.	
E.35 Mae'r cyngor yn cadw cyfrif ar wahân o'r holl daliadau o dan adran 137.		Gweler adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972	
E.36 Ar gyfer cynghorau cymuned cymwys, sydd felly'n gallu arfer y pŵer		Gweler Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a phennod 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol			
Datganiad	**Ar waith (Ydy/Nac ydy)**	**Rhagor o wybodaeth**	**Sylwadau**
cymhwysedd cyffredinol, mae'r cyngor yn sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â'r adrannau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r canllawiau cysylltiedig.		(Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref	

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol - Crynodeb o'r camau gweithredu

Crynodeb o'r camau gweithredu	Gan bwy	Erbyn pryd
•	•	•

Crynodeb o'r holl gamau gweithredu i'w cymryd o ganlyniad i Ran 1 – Y prawf iechyd

Crynodeb o'r camau gweithredu allweddol	Gan bwy	Erbyn pryd
•	•	•

Rhan 2: Yr hunanasesiad

Cyflwyniad a sut i'w ddefnyddio

Yr hunanasesiad yw'r rhan o'r pecyn cymorth a **arweinir gan gynghorwyr**. Mae'r hunanwerthusiad yn cynnwys chwe thema, y mae'r pum thema gyntaf yr un peth â'r themâu yn Rhan 1 – Y prawf iechyd:

- Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol
- Arweinyddiaeth a phobl
- Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau
- Prosesau busnes
- Adnoddau a rheolaeth ariannol
- Gwerthuso'r effaith

Mae pob thema yn cynnwys un datganiad llywodraethu cyffredin neu fwy sy'n adlewyrchu'r nodweddion sy'n gysylltiedig â llywodraethu cyngor cymuned neu dref yn effeithiol. **Dylai'r cyngor ystyried sut mae'n gweithredu mewn perthynas â phob datganiad**, a chaiff ei **gefnogi i ddod i gasgliadau gan gyfres o gwestiynau treiddgar ac enghreifftiau o dystiolaeth** y gall fod am ei hystyried.

Caiff pob datganiad cyffredin ei ddilyn gan y canlynol:

- **Cwestiynau i'w hystyried** – bydd y rhain yn eich helpu chi a'ch cyngor i ddeall a myfyrio ar sut mae'r cyngor yn gweithredu a ble mae angen atgyfnerthu'r maes hwn o'ch gwaith neu lle mae cyfle i wneud hynny.

- **Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad** – mae hyn yn cynnwys awgrymiadau o bethau sy'n debygol o fod ar gael eisoes i'r cyngor, ac a all fod yn ddefnyddiol i chi wrth ddod i gasgliadau ynghylch sut mae'r cyngor yn gweithredu mewn perthynas â'r datganiad cyffredin. Dim ond awgrymiadau ydynt a dylech ystyried adolygu unrhyw dystiolaeth a fydd yn helpu i lywio eich asesiad. Bydd Rhan 1 – Y prawf iechyd wedi'i chwblhau hefyd yn ddarn allweddol o dystiolaeth i'w hadolygu wrth i chi ystyried y cwestiynau hunanasesu.

- **Rhagor o wybodaeth** – mae'r adran hon yn esbonio ychydig mwy am gyfrifoldebau cynghorau mewn perthynas â'r thema / datganiad cyffredin, ac mae'n cynnwys ffynonellau sy'n cynnig arweiniad, cymorth a hyfforddiant ychwanegol er mwyn helpu i newid neu wella eich trefniadau a'ch prosesau gweithio. Cliciwch ar unrhyw destun wedi'i danlinellu yn y golofn rhagor o wybodaeth i gael gafael ar adnoddau ychwanegol.

- **Sylwadau** – dyma le gwag i'ch cyngor grynhoi ei gasgliadau mewn perthynas â'r datganiadau cyffredin a'r cwestiynau.

- **Camau gweithredu** – dyma le gwag i'ch cyngor gofnodi'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad mewn perthynas â phob datganiad cyffredin.

Rydym yn awgrymu y dylid cymryd y camau canlynol wrth ddefnyddio'r rhan hon o'r pecyn cymorth:

1) Dylai'r cynghorwyr adolygu'r hunanasesiad a llunio eu barn eu hunain o ran sut mae'r cyngor yn gweithredu mewn perthynas â phob un o'r themâu a'r datganiadau.
2) Dylai'r cynghorwyr gyfarfod fel grŵp gorchwyl a gorffen neu weithgor er mwyn cymharu eu syniadau a chytuno ar farn y gellir ei chrynhoi yn y blwch **sylwadau** a ddarperir o dan bob datganiad.
3) Yn seiliedig ar y casgliadau a nodir yn y blwch sylwadau, dylid cofnodi'r **camau gweithredu** y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd i ddatblygu, neu ddatblygu ymhellach, yn y maes hwnnw.
4) Wedyn, gellir **trafod** y crynodeb o'r canfyddiadau a'r camau gweithredu arfaethedig a **chytuno arnynt mewn cyfarfod o'r cyngor llawn.**

Mae'n bosibl y bydd eich cyngor yn penderfynu cwblhau'r prawf iechyd cyfan yn gyntaf ac yna'r hunanasesiad cyfan, neu gallech ddewis cwblhau thema yn y prawf iechyd a'r hunanasesiad ar y cyd cyn symud ymlaen i'r thema nesaf.

Mae lle gwag ar ddiwedd yr hunanasesiad i grynhoi'r camau gweithredu allweddol i'w cymryd o ganlyniad i Ran 2 – Yr hunanasesiad mewn un man.

Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol

Mae cyngor cymuned a thref yn darparu arweinyddiaeth gymunedol. Wrth arfer y rôl hon, bydd yn cael budd o weledigaeth glir ar gyfer ei gymuned, wedi'i datblygu mewn partneriaeth / drwy ymgynghori â phob rhan o'r gymuned. Bydd y broses hon yn llywio cynghorau, cyllidebau a gweithgareddau'r cyngor er mwyn sicrhau bod y cyngor yn gweithio gyda'r gymuned ac er ei budd.

Mae gan y cyngor weledigaeth a chynllun clir ar gyfer ei gymuned
Cwestiynau i'w hystyried • A oes gan y cyngor gynllun ar gyfer gwireddu ei weledigaeth a'i ddiben? • Sut ydych yn cynnwys y gymuned gyfan wrth ddatblygu'r cynllun hwnnw? • Sut mae'r cyngor yn bwriadu ystyried ei rwymedigaethau a'i swyddogaethau statudol? • Sut mae'r cyngor yn adolygu ei gynllun yn rheolaidd? • Sut mae'r cyngor yn cymhwyso ei weledigaeth wrth ystyried materion cynllunio sy'n ymwneud â'r gymuned?

Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad
 	
• Datganiadau wedi'u dogfennu o weledigaeth, diben a gwerthoedd
• Adnoddau cynllunio cymunedol
• Digwyddiadau ac arolygon ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd
• Datganiadau i'r wasg ac erthyglau
• Adroddiadau statudol fel y bo'n briodol, er enghraifft:
  - Adroddiad blynyddol ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol.
  - Y cynllun a'r adroddiad bioamrywiaeth a gyhoeddwyd
  - Adroddiad blynyddol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Rhagor o wybodaeth

Ni waeth beth fo'i faint, bydd meddu ar weledigaeth a diben y mae pob aelod wedi cytuno arnynt yn helpu eich cyngor i gyflawni ar ran ei gymuned. Bydd gweledigaeth a diben y cytunwyd arnynt yn rhoi ffocws clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch sut i ddefnyddio'r gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r canlyniadau y mae'r bobl yn y gymuned am eu gweld.

Mae cynnwys y gymuned wrth ddatblygu datganiadau gweledigaeth a diben a'r cynllun busnes yn sicrhau y gall y cyngor nodi dymuniadau ac anghenion y gymuned y cafodd ei ethol i'w gwasanaethu, a gweithredu arnynt.

Dylai cynllun busnes y cyngor adlewyrchu'r weledigaeth a'r diben y cytunwyd arnynt, darparu fframwaith cyffredinol i lywio camau gweithredu'r cyngor, a chreu'r gyllideb sy'n pennu'r praesept.

Bydd gwerthoedd y cyngor yn tywys pob agwedd ar ei waith a'i weithgareddau o ran egwyddorion ac arferion. Gall cynghorau ymchwilio i'r gwerthoedd a fabwysiadwyd gan gynghorau eraill, a gaiff eu harddangos fel arfer ar eu gwefannau, a gall Un Llais Cymru hefyd ddarparu enghreifftiau i gynghorau sy'n aelodau i'w helpu i ddatblygu eu gwerthoedd eu hunain.

Wrth ystyried pa wasanaethau i'w darparu, neu pa weithgareddau i'w cefnogi, dylai cynghorau hefyd ystyried yr asesiad llesiant lleol ar gyfer eu hardal a'r amcanion sy'n rhan o'r cynllun llesiant lleol. Er mai dim ond ar rai cynghorau cymuned a thref y bydd dyletswydd i gymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny, mae gan bob cyngor ran bwysig i'w chwarae i wella llesiant ei ardal, a thrwy wneud hynny, helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n bosibl y bydd y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ddefnydd i gynghorau wrth lywio eu gwaith cynllunio a'u penderfyniadau – hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Ceir rhagor o fanylion am y ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion

Dylai'r cyngor adolygu ei gynllun yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol.

Rhwymedigaethau statudol perthnasol

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 52 – O fis Ebrill 2022, mae dyletswydd ar gynghorau cymuned a thref i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, ar flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor. Rhaid i gynghorau ystyried canllawiau ar adroddiadau blynyddol a gyhoeddir

gan Weinidogion Cymru. Gweler Rhan 3, Pennod 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar rai cynghorau cymuned a thref penodol i gymryd yr holl gamau rhesymol i gyflawni amcanion lleol y cynllun llesiant lleol sydd ar waith yn eu hardaloedd. Dim ond os oedd ei incwm neu wariant gros yn £200,000 o leiaf ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol cyn y flwyddyn y cyhoeddir y cynllun llesiant lleol y bydd cyngor cymuned neu dref yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno. Os bydd cyngor cymuned neu dref yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, rhaid iddo gyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi ei gynnydd o ran cyflawni'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol. Mae croeso i gynghorau cymuned neu dref nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 40(1) o'r Ddeddf ond sy'n awyddus i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol o hyd, wneud hynny ar sail wirfoddol.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 6. – Mae dyletswydd ar gynghorau i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau, ac mae'n rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud a chyflwyno adroddiad ar y camau gweithredu a gymerwyd i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau bob tair blynedd. Gweler hefyd: Cyflwyniad i Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau; Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Rhan 1: Canllawiau ar gyfer Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau – Cwestiynau Cyffredin; Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: canllawiau adrodd; Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: gofynion adrodd cwestiynau cyffredin; Adran 6 B Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: templed adrodd; ac Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: templed adrodd enghreifftiol.

Cynlluniau ac adroddiadau enghreifftiol o'r rownd adrodd gyntaf: Cyngor Cymuned a Thref Abertyleri a Llanhiledd; Cyngor Cymuned a Thref Llan-ffwyst Fawr.

Gall cynghorau cymuned benderfynu a fyddant yn paratoi un adroddiad blynyddol cyfansawdd sy'n cwmpasu'r dyletswyddau adrodd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, neu'n llunio tri adroddiad unigol.

Adnoddau a hyfforddiant

Mae gan Un Llais Cymru ganllawiau ar gynllunio busnes ac enghreifftiau o gynlluniau busnes sydd ar gael i aelodau. Gall ymchwilio i waith cynghorau eraill hefyd fod yn ddefnyddiol wrth helpu'r cyngor i ddatblygu ei gynllun ei hun.

Mae gwefan Deall Lleoedd Cymru yn cynnwys data a gwybodaeth ddaearyddol am ardaloedd lleol i'ch helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer eich cymuned.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn darparu hyfforddiant a chanllawiau ar gynllunio, adnoddau a thechnegau ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys cymorth ar gyfer cynllunio lleoedd penodol.

Llunio fy nhref – pecyn cymorth ymarferol i ysbrydoli pobl leol i chwarae rhan wrth lunio eu hamgylchedd adeiledig

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion – yn nodi'r saith nod llesiant a'r ffyrdd o weithio er mwyn bwrw ati i gyflawni'r nodau.

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol. Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – SPSF 4: Rôl gydweithredol (Cynghorau cymuned) – canllawiau i gynghorau cymuned a thref ar eu rôl mewn cynlluniau llesiant lleol.

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – gwefan ar gyfer gwybodaeth gyffredinol ynghylch bioamrywiaeth a beth allwn ni ei wneud i helpu, ynghyd ag adran benodedig ar gyfer dyletswydd adran 6.

Sylwadau

Camau gweithredu

Byddwn yn:

-

Thema B – Arweinyddiaeth a phobl

Dylai'r cyngor barchu gwerthoedd tryloywder a bod yn agored a chydymffurfio â'r safonau a'r mathau o ymddygiad a bennwyd ar gyfer pob cynghorydd fel y'u nodir yn y cod ymddygiad, a'u modelu. Wrth arwain ei gymuned, dylai'r cyngor fod yn ymrwymedig i wella ei allu a'i adnoddau fel sy'n gymesur â'i amrediad o weithrediadau a graddfa'r gweithrediadau hynny.

Cyflogeion yw prif ased unrhyw gyngor ac mae'n bwysig ymddiried ynddynt a'u parchu i gyflawni eu rolau hyd eithaf eu gallu o fewn amgylchedd gwaith diogel. Mae hyfforddi a datblygu cyflogeion yn holl bwysig, yn ogystal â sicrhau bod systemau priodol ar waith i ddarparu gwobrau, cydnabyddiaeth ac atebolrwydd digonol o fewn fframwaith o bolisïau cyflogaeth effeithiol.

Mae'r cyngor yn darparu arweinyddiaeth i'w aelodau a'i staff
Cwestiynau i'w hystyried • A yw pob cynghorydd yn deall ei rwymedigaethau i sicrhau bod y cyngor yn cael ei lywodraethu'n effeithiol? • Sut ydych yn sicrhau bod pob aelod wedi'i hyfforddi ym mhob agwedd ar ei rôl? • Sut ydych yn sicrhau bod gan bob aelod yr adnoddau addas i ymgymryd â'i rôl? • Sut mae aelodau a staff yn ymgysylltu â chyrff cydnabyddedig sy'n cynrychioli'r sector (h.y. Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol) er mwyn rhannu arferion da a dysgu ohonynt?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Datganiadau gweledigaeth, diben a gwerthoedd • Datganiad derbyn swydd • Rheolau sefydlog • Cod ymddygiad • Trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau • Cofnodion o bresenoldeb yng nghyfarfodydd y cyngor • Tystiolaeth bod anghenion hyfforddi cynghorwyr wedi'u dadansoddi a bod hyfforddiant wedi'i gynnal

- Cynllun hyfforddi
- Aelodaeth o Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

Rhagor o wybodaeth

Cyfrifoldebau am lywodraethu effeithiol

Rhaid llofnodi datganiad derbyn swydd ffurfiol cyn y gall unigolyn weithredu fel aelod o gyngor cymuned neu dref. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i gydymffurfio â'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y cyngor. Dylai pob cynghorydd gydymffurfio ag ymddygiad a safonau priodol a'u modelu yn unol â'r hyn a ddisgwylir gan y rhai sy'n derbyn swyddi etholedig.

Adnoddau a hyfforddiant

Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru: Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cod Ymddygiad Enghreifftiol

Fideo – Canllaw Cynghorwyr i rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau

Hyfforddiant ar-lein Un Llais Cymru (am ddim i bob cynghorydd) Y cod ymddygiad ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref

Mae modiwl hyfforddiant Un Llais Cymru '*Y Cynghorydd*" yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i gyfrifoldebau cynghorwyr, gan gynnwys y cod ymddygiad ac ymddygiad moesegol. Mae modiwl hyfforddiant penodol hefyd ar gael ar y 'Cod ymddygiad'. Cysylltwch ag Un Llais Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Canllaw'r cynghorydd da ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref

Hyfforddi cynghorwyr

Mae cyngor cymuned da yn ymrwymedig i gynnig hyfforddiant a datblygiad parhaus, i'w gynghorwyr ac i'w staff. Mae Strategaeth Hyfforddi Genedlaethol wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

Mae adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref baratoi a chyhoeddi cynllun ynglŷn â'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer eu haelodau a'u staff. Dylai'r cynllun hyfforddi ystyried a oes gan y cyngor, ar y cyd, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arno i gyflawni ei gynlluniau yn y ffordd fwyaf effeithiol, a mynd i'r afael â hynny. Rhaid cyhoeddi'r cynllun hyfforddi cyntaf erbyn 5 Tachwedd 2022, chwe mis ar ôl i'r ddyletswydd ddod i rym. Rhaid i'r cynllun hyfforddi gael ei adolygu dri mis ar ôl pob etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr cymuned fan bellaf. Mae canllawiau statudol wedi cael eu cyhoeddi ar y ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynlluniau hyfforddi. Gweler Pennod 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Ceir gwybodaeth am unrhyw fwrsarïau cyfredol i gynghorwyr ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ar wefan Un Llais Cymru.

Mae templed cynllun hyfforddi ar gael ar gais i aelodau Un Llais Cymru.

Cydnabyddiaeth cynghorwyr

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu'r taliadau a wneir i aelodau etholedig cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mae'r Panel yn llunio adroddiad bob blwyddyn yn nodi'r math o daliadau y gellir eu gwneud, a lefel y taliadau hynny. Dyletswydd priod swyddog cyngor (y clerc fel arfer) yw trefnu i'r taliadau cywir gael eu gwneud i bob unigolyn sydd â'r hawl i'w cael.

Adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'i ganllaw ar daliadau i aelodau etholedig

Cyrff yn y sector

Anogir cynghorau i fod yn aelodau o Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Cysylltwch ag Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol am fanylion. Mae Pwyllgorau Ardal Un Llais Cymru a chynadleddau a digwyddiadau hyfforddi Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn cynnig cyfleoedd i ddysgu am ddatblygiadau mewn cynghorau eraill yn ogystal â rhannu eu harferion da eu hunain. Gellid hefyd ystyried cyflwyno ceisiadau i gynllun gwobrau blynyddol Un Llais Cymru. Yn achos cynghorau 'mwy', dylent ystyried cymryd rhan lawn yng nghyfarfodydd Cynghorau Mwy.

Sylwadau

Camau gweithredu **Byddwn yn:** •

Mae'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflogaeth
Cwestiynau i'w hystyried • A yw pob cynghorydd yn deall ei gyfrifoldebau fel cyflogwr? • A oes gan y cyngor bwyllgor adnoddau dynol/personél i ymdrin â materion staffio? • A yw pob aelod o'r staff yn deall ei rwymedigaethau o dan y cod ymddygiad cenedlaethol i gyflogeion? • Sut mae'r cyngor yn adolygu a yw'r staff yn cael cydnabyddiaeth briodol? • Sut mae'r cyngor yn sicrhau cystadleuaeth agored a theg ar gyfer pob swydd wag? • Pa drefniadau sydd ar waith i alluogi cyflogeion i gyfathrebu â'u rheolwyr llinell ac ar gyfer arfarniadau? • Pa brosesau sydd ar waith i ddatrys anghydfodau / cwynion cyflogaeth mewnol a chwynion allanol posibl am aelodau a staff y cyngor?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Tystiolaeth bod cyfreithiau cyflogaeth cyfredol yn cael eu cymhwyso • Tystiolaeth o gontractau a pholisïau wedi'u llofnodi y cyfeirir atynt mewn contractau cyflogaeth ac sy'n gwbl gydnaws â'r Cytundeb Cyflog ac Amodau Cenedlaethol i Glercod • Polisi cyflogau • Disgrifiadau swydd • Llawlyfr i Gyflogeion • Cynllun arfarnu a thystiolaeth bod arfarniadau wedi'u cwblhau • Cofnodion cyfarfodydd llawn y cyngor a chyfarfodydd y pwyllgor adnoddau dynol • Cofnodion ariannol yn cofnodi didyniadau priodol o gyfrifiadau cyflog gros • Gweithdrefn cwynion cyflogaeth a chwynion cyffredinol

Rhagor o wybodaeth

Rhaid i'r cyngor ymddwyn fel cyflogwr cyfrifol bob amser, a rhaid iddo sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chyfreithiau cyflogaeth. Dylai fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth sy'n cynnwys telerau ac amodau ac sydd wedi'i ategu gan bolisïau cyflogaeth priodol.

Rhaid i'r cyngor gymeradwyo'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy i bob aelod o'r staff ymlaen llaw. Dylai cynghorau ystyried defnyddio adnodd meincnodi effeithiol ar gyfer pennu cyflogau eu cyflogeion, gan sicrhau y cytunir ar oriau priodol ar gyfer pob rôl. Yn achos clercod/dirprwyon a chynorthwywyr, byddai'r gwerthusiadau swydd a'r graddfeydd cyflog cenedlaethol yn briodol.

Pan fydd cynghorau â nifer o gyflogeion yn awyddus i newid rolau swyddi a strwythurau staffio, dylent sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r prosesau sy'n gysylltiedig ag amrywio contractau.

Mae'n hanfodol bod trefniadau rheoli llinell effeithiol ar waith ar gyfer pob cyflogai. Yn achos cynghorau llai, gydag un clerc rhan-amser o bosibl, dylid ystyried y trefniadau arferol ar gyfer rheoli'r clerc o ddydd i ddydd a system ar gyfer adrodd i'r cyngor drwy bwyllgor adnoddau dynol / personél.

Mae'n bwysig sicrhau bod aelodau a swyddogion wedi cael hyfforddiant ar arfarnu cyflogeion a bod cynllun addas ar waith y mae'r cyngor a'r cyflogeion yn ei ddeall.

Mae'r cod ymddygiad ar gyfer cyflogeion cymwys awdurdodau perthnasol yng Nghymru yn nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan gyflogeion cynghorau cymuned. Fel egwyddor gyffredinol, mae'n nodi bod hawl gan y cyhoedd i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf gan gyflogeion cyngor cymuned a thref, ac mae'n nodi bod yn rhaid iddynt ymddwyn mewn ffordd onest, ddiduedd a gwrthrychol gan ddangos uniondeb wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r cod ymddygiad hefyd yn ymdrin â'r canlynol:

- Atebolrwydd
- Amhleidioldeb gwleidyddol
- Cydberthnasau ag aelodau, y cyhoedd a chyflogeion eraill
- Cydraddoldeb
- Stiwardiaeth
- Buddiant personol
- Chwythu'r chwiban
- Trin gwybodaeth

- Penodi staff
- Ymchwiliadau gan swyddogion monitro

Adnoddau a hyfforddiant

Mae cymorth polisi cyflogaeth ar gael drwy Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, gan gynnwys telerau ac amodau gwasanaeth enghreifftiol a pholisïau enghreifftiol.

Mae amrywiaeth o gyngor, templedi a hyfforddiant ar gael ar wefan ACAS er mwyn helpu cyflogwyr a chyflogeion

Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Llywodraeth Leol Cymwys) (Cymru) 2001

Y Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflogau ac Amodau Gwasanaeth Clercod Cynghorau Lleol yng Nghymru a Lloegr 2004 – Mae'r cyhoeddiad hwn yn ymdrin â chyflogau ac amodau gwasanaeth Clercod llawnamser a rhan-amser a swyddogion eraill Cynghorau Tref, Plwyf a Chymuned. Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Cenedlaethol ar wefan Un Llais Cymru

Mae Un Llais Cymru wedi anfon polisi cyflogau enghreifftiol at bob cyngor.

Mae gan Un Llais Cymru fodiwl hyfforddiant ar 'Y Cyngor fel Cyflogwr' sy'n ymdrin ag amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys contractau cyflogaeth, manylebau rôl a manylebau person, disgyblu a chwynion cyflogaeth, ac iechyd a diogelwch. Mae modiwl e-ddysgu byr hefyd ar gael ar wefan Un Llais Cymru ac mae'n rhad ac am ddim i bob cynghorydd fel cyflwyniad i'r maes hwn.

Mae Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol wedi cydgynhyrchu dogfen canllawiau 'Bwlio ac aflonyddwch mewn Cynghorau'. Mae'r ddogfen hon ar gael ar gais i aelodau.

Sylwadau

Camau gweithredu **Byddwn yn:** •

Mae'r cyngor yn rhoi'r cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen ar ei staff i gyflawni eu rôl
Cwestiynau i'w hystyried • Sut mae'r cyngor yn annog datblygiad proffesiynol parhaus ei gyflogeion? • Sut mae'r cyngor yn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi'i hyfforddi ym mhob agwedd ar ei rôl? • Sut mae'r cyngor yn sicrhau ei fod yn darparu'r holl gyfleusterau ac offer angenrheidiol i'r rhai sy'n gweithio o'r swyddfa neu gartref? • A oes polisïau a phrosesau priodol ar waith i reoli iechyd, diogelwch a llesiant cyflogeion y cyngor? Sut ydych yn sicrhau y caiff y rhain eu dilyn?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Polisi a chynllun hyfforddi • Cyllideb hyfforddi • Polisi urddas yn y gwaith • Protocol gweithio i aelodau/swyddogion • Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth • Asesiadau risg • Tystiolaeth o broses ar gyfer llunio ac adolygu cynlluniau datblygu unigol i bob aelod o'r staff • Buddsoddiad mewn hyfforddiant rheoli llinell i glercod sy'n rheoli aelodau eraill o staff y cyngor • Statws Buddsoddwyr mewn Pobl fel y bo'n briodol
Rhagor o wybodaeth Mae cyngor llwyddiannus yn helpu ei gyflogeion i ddatblygu. Mae adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref baratoi a chyhoeddi cynllun ynglŷn â'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer eu haelodau a'u staff. Dylai'r cynllun hyfforddi ystyried a oes gan y cyngor, ar y cyd, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arno i gyflawni ei

gynlluniau yn y ffordd fwyaf effeithiol, a mynd i'r afael â hynny. Rhaid cyhoeddi'r cynllun hyfforddi cyntaf erbyn 5 Tachwedd 2022, chwe mis ar ôl i'r ddyletswydd ddod i rym. Rhaid i'r cynllun hyfforddi gael ei adolygu dri mis ar ôl pob etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr cymuned fan bellaf. Mae canllawiau statudol wedi cael eu cyhoeddi ar y ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynlluniau hyfforddi. Gweler Pennod 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Mae templed cynllun hyfforddi ar gael ar gais i aelodau Un Llais Cymru.

Gellir cael gafael ar lawer o'r gofynion hyfforddiant ar gyfer staff cynghorau gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol – gan gynnwys cymhwyster Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA). Anogir cynghorau i ddarparu'r cyllid angenrheidiol, gan gynnwys amser i ffwrdd â thâl, ar gyfer cyrsiau, ac yn achos llwybrau cymwysterau, i leihau llwythi gwaith unigolion yn briodol i'w helpu i astudio. Ceir rhagor o wybodaeth am gyrsiau ac unrhyw gymorth bwrsari sydd ar gael ar wefan Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

Mae darparu'r adnoddau priodol i staff y cyngor gwblhau eu gwaith yn ystyriaeth allweddol wrth sicrhau bod y cyngor yn gweithredu'n llwyddiannus. Er enghraifft, dylid rhoi cyfeiriadau e-bost y cyngor i staff a sicrhau bod ganddynt fynediad at systemau cyfrifiadurol y cyngor yn hytrach na disgwyl iddynt ddefnyddio eu systemau eu hunain. Ni ddylai staff y cyngor ddefnyddio cyfeiriadau e-bost personol ar gyfer gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cyngor na chadw dogfennau'r cyngor ar gyfrifiaduron personol, er mwyn sicrhau diogelwch gwybodaeth yn ogystal â sicrhau parhad effeithiol pe bai'r cyflogai yn gadael ei swydd yn y cyngor.

Adnoddau a hyfforddiant

Mae Un Llais Cymru yn darparu cwrs hyfforddi ar y pwnc hwn.

Mae Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol hefyd yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi – gweler gwefan y Gymdeithas er mwyn gweld y cyrsiau diweddaraf a'r lleoedd sydd ar gael ar y cyrsiau hynny.

Sylwadau

Camau gweithredu **Byddwn yn:** •

Thema C – Ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaethau

Mae cynghorau cymuned a thref yn mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â'u cymunedau, eu cynnwys ac ymgynghori â nhw. Mae cyngor effeithiol yn deall anghenion a dymuniadau ei gymuned (pobl a lleoedd), ac yn ymwybodol o'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae'n ei wneud. Dylai cynghorau anelu at sicrhau nad oes neb yn teimlo dan anfantais, a'u bod yn ymgysylltu â phob grŵp sy'n rhan o'r gymuned.

Mae partneriaeth yn gytundeb i wneud rhywbeth gyda'ch gilydd a fydd o fudd i bawb dan sylw, gan gyflawni canlyniadau na ellid eu cyflawni gan bartner unigol ar ei ben ei hun a lleihau achosion o ddyblygu ymdrechion. Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn golygu y gellir darparu gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig, megis drwy nodau cyffredin a/neu drwy rannu adnoddau.

Mae'r cyngor yn ymgysylltu â'i gymuned
Cwestiynau i'w hystyried • A yw eich cyngor yn deall cyfansoddiad demograffig ei gymuned? • A yw'r cyngor yn cynnwys y gymuned gyfan yn ei brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac wrth ddarparu gwasanaethau? • A yw'r cyngor yn cadw mewn cysylltiad am "bynciau llosg" lleol sy'n dod i'r amlwg o bryd i'w gilydd? • Sut mae eich cyngor yn cynllunio ac yn darparu ar gyfer yr amrywiaeth o anghenion yn ei gymuned? • Pa ddulliau ac adnoddau a ddefnyddir gan y cyngor i gynnwys y gymuned mewn materion cynllunio cymunedol? • Sut mae'r cyngor yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu llais y gymuned wrth adolygu ceisiadau cynllunio a chyfrannu, lle y bo'n briodol, at y Cynllun Datblygu Lleol? • Beth mae'r cyngor yn ei wneud i sicrhau ei fod yn ymgysylltu â'r bobl yn y gymuned yn eu dewis iaith?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Strategaeth ymgysylltu â'r gymuned wedi'i llunio ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd • Arolygon cymunedol • Gwaith rhagweithiol gyda grwpiau cymunedol

- Cymryd rhan mewn agweddau eraill ar fywyd cymunedol, e.e. llywodraethwyr ysgol, cyngor ar bopeth, ac ati.
- Gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cofnodion cyfarfodydd
- Adroddiad blynyddol
- Gwefan
- Cylchlythyrau
- Hysbysfyrddau
- Digwyddiadau cymunedol
- Cyflogi swyddog datblygu cymunedol (lle y bo'n briodol)
- Cynrychiolwyr ieuenctid yn aelodau o'r cyngor

Rhagor o wybodaeth

Caiff y cyngor ei ethol i wasanaethu pob rhan o'r gymuned ac mae'n rhaid iddo sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion yr holl bobl sy'n rhan o'i gymuned. Mae bod yn agored ac yn dryloyw am waith y cyngor, a'r penderfyniadau a wneir ganddo, yn allweddol i ymgysylltu â'r gymuned. Mae strategaeth ymgysylltu â'r gymuned yn nodi sut y bydd y cyngor yn deall ei gymuned, yn cynnwys y gymuned yn ei waith ac yn cyfathrebu â'i etholwyr.

Rhwymedigaethau statudol perthnasol

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – Rhan 3 Hyrwyddo Mynediad at Lywodraeth Leol

Nod darpariaethau cyfranogiad y cyhoedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yw annog amrywiaeth ehangach o aelodau o'r cyhoedd i ymgysylltu â democratiaeth leol. Mae'n ofynnol i brif gynghorau lunio 'strategaeth cyfranogiad y cyhoedd', ymgynghori arni, ei chyhoeddi a'i hadolygu, gyda'r nod o'i gwneud yn haws i aelodau o'r cyhoedd ddeall sut mae llywodraeth leol yn gweithredu; sut mae'n gwneud penderfyniadau; a sut y gall pobl leol ddylyn gweithrediadau, mynegi eu safbwyntiau, a sicrhau y caiff y safbwyntiau hynny eu hystyried. Nid yw'n ofynnol i gynghorau cymuned lunio strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, er y dylent ystyried sut maent yn galluogi'r cyhoedd i gyfranogi.

Mae'n rhaid i bobl sy'n llywyddu cyfarfodydd cynghorau cymuned a thref sy'n agored i'r cyhoedd roi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol gyflwyno sylwadau am unrhyw fater a drafodir yn y cyfarfod, onid yw hynny'n debygol o gael effaith andwyol ar

y gallu i gynnal y cyfarfod yn effeithiol.

Mae adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer presenoldeb aml-leoliad mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned a thref. Mae'r gofyniad yn nodi bod yn rhaid i gynghorau cymuned wneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer cynnull cyfarfodydd, sy'n caniatáu – ond nid yn ei gwneud yn ofynnol – i gyfranogwyr fod yn bresennol mewn amrywiaeth o leoliadau. Gweler Pennod 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Mae Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau gan gynghorau cymuned, e.e. hysbysiadau am gyfarfodydd a'r trefniadau ar eu cyfer a chyhoeddi nodyn byr o fewn 7 diwrnod i gyfarfodydd y cyngor. Dylid eu darllen ar y cyd ag adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned sicrhau bod gwybodaeth a dogfennau penodol (gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd) ar gael yn electronig.

Gwnaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddarpariaeth ar gyfer penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol (adran 118)

Adnoddau a hyfforddiant

Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru yn anelu at lywio ymddygiad ac annog gweithgarwch ymgysylltu cyson o ansawdd da â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd. Gweler Hwb Gwybodaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru i weld yr Egwyddorion Cenedlaethol a chael gafael ar wybodaeth ategol arall.

Mae'r cytundeb geo-ofodol i wasanaethau cyhoeddus yn darparu data lleoliad a all helpu i gynllunio a gwneud penderfyniadau.

Mae Un Llais Cymru yn cynnig dau fodiwl hyfforddiant sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned – '*Cyflwyniad i Ymgysylltiad Cymunedol*'' – sy'n ystyried sut y gall cynghorau a chynghorwyr wella'r ffordd y maent yn ymgysylltu â'r cymunedau a wasanaethir ganddynt; ac *'Ymgysylltiad Cymunedol Rhan 2'* sy'n ymdrin ag adnoddau a thechnegau.

Mae Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn cynnig cymhwyster Llywodraethu Cymunedol.

Sylwadau
Camau gweithredu **Byddwn yn:** •

Mae'r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn helpu ei gymuned
Cwestiynau i'w hystyried • A yw'r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn helpu i gyflawni ei weledigaeth a'i ddiben? • Sut mae'r cyngor yn asesu pwy y gallai weithio gyda nhw a phwy y dylai weithio gyda nhw (gan gynnwys partneriaid statudol)? • A ydych yn gweithio gyda phawb y gallech / y dylech fod yn gweithio gyda nhw? • Sut mae'r cyngor wedi sicrhau bod ganddo adnoddau priodol i ddatblygu ei bartneriaethau?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Gwaith rhagweithiol gyda grwpiau cymunedol • Cymryd rhan mewn agweddau eraill ar fywyd cymunedol, e.e. llywodraethwyr ysgol, cyngor ar bopeth, ac ati. • Adroddiad blynyddol • Digwyddiadau cymunedol • Gweithio gyda'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (yn enwedig y cynghorau hynny sydd â dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) • Cynrychiolwyr pwnc arweiniol wedi'u penodi • Arbenigedd i fod yn aelod o bwyllgorau cynghori (cyfethol unigolion nad ydynt yn gynghorwyr) • Cytundeb siarter â'r prif awdurdod
Rhagor o wybodaeth Gall cynghorau cymuned a thref ddarparu gwasanaethau gyda chyrff eraill, gan gynnwys cynghorau cymuned cyfagos. Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn cydnabod cyfyngiadau'r hyn y gallwn ei wneud ar ein pen ein hunain a'r cyfleoedd i gyflawni mwy drwy gydweithio. Mae dadansoddi rhanddeiliaid yn ffordd syml o nodi pwy allai fod â'r diddordeb a'r dylanwad mwyaf i roi gweledigaeth a chynllun y cyngor ar waith.

Gall hyn fod yn adnodd defnyddiol i nodi partneriaid posibl a'u blaenoriaethu. Un o sgil-effeithiau'r gwaith hwn yw y gallai nodi cyfleoedd i ystyried uchelgeisiau y gellid bod wedi'u methu fel arall. Ar ôl dadansoddi rhanddeiliaid, bydd angen i'r cyngor ystyried pwy yr hoffai weithio gyda nhw ac a oes ganddo adnoddau priodol i fwrw ati â'r gwaith.

Os bydd y cyngor yn cymryd yr awenau wrth sefydlu partneriaeth, dylai gynrychioli grwpiau budd cymunedol a buddiannau lleiafrifol naill ai drwy'r aelodau neu drwy ymgynghori.

Gweithio gyda'r prif gyngor

Gall meithrin cydberthnasau effeithiol rhwng y cynghorau cymuned a'r prif gyngor ar gyfer yr ardal gefnogi cynghorau i gyflawni ar gyfer y bobl a wasanaethir ganddynt. Gellir sefydlu dulliau anffurfiol a / neu ffurfiol o ymgysylltu â gweithio mewn partneriaeth.

Bydd prif gyngor a chyngor cymuned yn ymrwymo i gytundeb siarter ar gyfer cymuned neu gymunedau yn eu hardal. Mae'n gytundeb a rennir sy'n disgrifio'r ffordd y caiff priod swyddogaethau'r cynghorau eu harfer at ddiben cynnal a gwella cydweithrediad rhyngddynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob cyngor yn gryf i ymrwymo i gytundebau siarter ffurfiol er mwyn rhoi sail i'r gydberthynas â'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal. Gall cydweithio drwy gydberthnasau a rhwydweithiau effeithiol helpu'r ddwy haen i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau priodol ar gyfer y bobl a wasanaethir ganddynt. Mae siarter yn rhoi eglurder ynghylch ymrwymiadau'r ddau barti ac yn rhoi dilysrwydd a chydnabyddiaeth i'r ddau barti fel partneriaid cyfwerth.

Adnoddau a hyfforddiant

Mae astudiaethau achos ar ymgysylltu effeithiol ar gael i aelodau Un Llais Cymru ar gais.

Ensuring Effective Stakeholder Engagement – Canllaw a luniwyd gan Wasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth er mwyn helpu i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys adnoddau i nodi rhanddeiliaid allweddol a chynllun ymgysylltu.

Sylwadau
Camau gweithredu **Byddwn yn:** •

Mae'r cyngor yn cyfathrebu â'i bartneriaid a'r gymuned
Cwestiynau i'w hystyried • A ydych yn hyderus bod eich gohebiaeth yn hygyrch i bob rhan o'r gymuned? • Sut rydych yn annog adborth a chyfranogiad gan bob rhan o'r gymuned? • Sut mae eich gwefan yn eich helpu i ymgysylltu a chyfathrebu? • Sut rydych yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'ch cymuned?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Strategaeth ymgysylltu â'r gymuned wedi'i llunio ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd • Arolygon cymunedol • Penodi cynrychiolwyr y cyngor i wasanaethu ar gyrff allanol • Gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol • Cofnodion cyfarfodydd • Adroddiad blynyddol • Gwefan • Cylchlythyrau • Hysbysfyrddau • Digwyddiadau cymunedol • Llythyrau canmol a chwyno • Sesiynau cyfranogiad y cyhoedd ar agendâu cyfarfodydd y cyngor • Cyngorfeydd y cyngor
Rhagor o wybodaeth Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref gyhoeddi gwybodaeth benodol yn electronig. Mae adran 55 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi gwybodaeth electronig am

sut i gysylltu â nhw ac, os yw'n wahanol, eu clerc. Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid iddi fod ar gael yn electronig yn cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost. Yn ogystal, rhaid i gynghorau gyhoeddi gwybodaeth electronig am eu haelodau, gan gynnwys rhestr o aelodau'r cyngor, enw pob aelod, gwybodaeth am sut i gysylltu â'r aelodau, eu cysylltiad ag unrhyw blaid (os o gwbl) ac unrhyw swydd a ddelir ganddynt neu bwyllgor y maent yn aelod ohono fel rhan o'r cyngor. Os yw'r gymuned dan sylw wedi'i rhannu'n wardiau cymuned, rhaid dangos y ward y mae pob aelod yn ei chynrychioli. Rhaid i gynghorau hefyd gyhoeddi cofnodion electronig eu cyfarfodydd a chyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, y dogfennau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfodydd hynny. Rhaid iddynt hefyd gyhoeddi eu cyfrifon blynyddol archwiliedig yn electronig.
Rhaid i bob cyngor unigol benderfynu a fydd yn gweithredu ei wefan annibynnol ei hun, neu a fydd yn penderfynu cysylltu â chynghorau eraill yn ei ardal, neu'r prif gyngor, neu gorff arall sy'n fodlon cynnal ei wybodaeth. Fodd bynnag, mae'n ofynnol bod gwefan a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd sy'n galluogi'r cyhoedd i gael gafael ar y wybodaeth a ddisgrifir uchod.

Mae gwefan yn ffordd mor allweddol o gyfathrebu fel y bydd pobl sydd am gael gwybod mwy am eich cyngor yn cymryd yn ganiataol y bydd gennych wefan. Mae gwefan yn cynnig y cyfle i hyrwyddo, profi a rhannu syniadau ar gyfer dyfodol y gymuned.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gyflym ac am ddim i'w defnyddio, ac maent yn ffordd ardderchog o gyfleu eich negeseuon i fwy o bobl yn eich cymuned. Gall y cyfryngau cymdeithasol helpu i wella hygyrchedd a gallant helpu i ddymchwel rhwystrau i bobl a fyddai o bosibl yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan yng ngweithgareddau eich cyngor fel arall.

Bydd angen dulliau cyfathrebu gwahanol er mwyn sicrhau bod y cyngor yn hysbysu ac yn ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned gyfan. Bydd ystyried sut rydych yn cyfathrebu, y gynulleidfa ar gyfer dulliau cyfathrebu gwahanol, a ble y ceir unrhyw fylchau, yn sicrhau eich bod yn cyrraedd amrywiaeth lawn o bobl yn eich cymuned.

Adnoddau

Canllawiau Statudol: Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref

Cysylltu â'ch cymuned leol: Canllaw Cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref – Pennod 3 Cyfranogiad mewn cyfarfodydd

Mae Pecyn Cymorth Cyfathrebu ar gael i aelodau Un Llais Cymru ar gais.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol wedi cynhyrchu cyfres o ganllawiau i gefnogi cynghorwyr wrth iddynt ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.
Sylwadau
Camau gweithredu **Byddwn yn:** •

Thema D – Prosesau busnes

Ystyr proses yw cyfres o gamau gweithredu a gymerir i gyflawni nod penodol. Bydd gan gyngor sy'n cael ei redeg a'i reoli'n dda brosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith ar gyfer meysydd busnes allweddol. Mae'r prosesau hyn yn rhoi strwythur cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac maent yn anelu at wneud y canlynol:

- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol;
- cyflawni deilliannau neu ganlyniadau cyson;
- lliniaru risg drwy sicrhau y caiff tasgau eu cyflawni'n briodol.

Mae prosesau busnes yn debygol o ddarparu dangosyddion allweddol mewn perthynas â chryfder trefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu cyngor cymuned neu dref. Bydd y cwestiynau canlynol yn helpu eich cyngor i fyfyrio ar feysydd lle mae gan gyngor brosesau sefydledig ar waith fel arfer, ac yn eich helpu i benderfynu a oes angen i chi gyflwyno prosesau newydd neu brosesau gwahanol.

Mae'r cyngor yn gweithredu safonau atebolrwydd a llywodraeth uchel mewn ffordd agored a thryloyw
Cwestiynau i'w hystyried • Pa brosesau sydd ar waith er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau effeithiol ac amserol, ac a gaiff y prosesau hyn eu dogfennu? • Sut mae cynllun busnes / gwasanaeth blynyddol y cyngor yn llywio ei gyllideb? • Sut mae'r cyngor yn defnyddio trefniadau gwneud penderfyniadau pwyllgorau ac is-bwyllgorau? • Pa brosesau sydd ar waith i adolygu'r trefniadau rheoli risg? • Pa ddarpariaethau trosglwyddo sydd ar waith ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth, cyllid a chofnodion pan fydd y clerc/swyddog ariannol cyfrifol yn gadael y cyngor?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Rheolau sefydlog

- Caiff pob proses ei hadolygu'n rheolaidd gan y cyngor / pwyllgor er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n briodol, a chaiff y canfyddiadau eu cofnodi
- Dogfennaeth rheolaethau mewnol
- Amserlen gyhoeddedig o gyfarfodydd y cyngor a'r pwyllgorau
- Mae cofnodion cyfarfodydd y cyngor yn cofnodi penderfyniadau ynghylch yr angen am bwyllgorau / is-bwyllgorau, a chânt eu cyhoeddi mewn modd amserol
- Y defnydd o reolau sefydlog; rheoliadau ariannol; a'r gofrestr risg
- Cylch gorchwyl ar gyfer y fframwaith pwyllgorau / is-bwyllgorau
- Cynllun dirprwyo er mwyn helpu i wneud penderfyniadau
- Cofrestr risg
- Tystiolaeth o broses gwyno leol sy'n gwbl hygyrch i aelodau'r cyhoedd, a chyfeiriad at rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Rhagor o wybodaeth

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref gynnal ei fusnes mewn ffordd agored a thryloyw a chydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau.

Rhaid i'r cyngor gynnal ei fusnes a gwneud penderfyniadau drwy gyfarfodydd, naill ai cyfarfodydd y cyngor llawn neu bwyllgorau. Mae'r rheolau sy'n llywodraethu cyfarfodydd wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, yn arbennig atodlen 12.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gynghorau gadw cofnodion o'r cyfarfodydd a gynhelir ac mae'n rhaid i'r cofnodion hyn fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Rhaid i gyfarfodydd y cyngor fod yn agored i'r cyhoedd a'r wasg. Dim ond drwy benderfyniad gan y cyngor mewn perthynas ag eitem benodol ar yr agenda lle y bwriedir trafod materion sensitif (fel materion cyfreithiol, cytundebol neu bersonél) y gellir eu heithrio.

Dylid cynnwys y rheolau ar gyfer cyfarfod blynyddol y cyngor a'r holl gyfarfodydd eraill yn rheolau sefydlog y cyngor.

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref gyhoeddi gwybodaeth benodol yn electronig. Mae adran 55 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi gwybodaeth electronig am

sut i gysylltu â nhw ac, os yw'n wahanol, eu clerc; gwybodaeth am bob un o'u haelodau; cofnodion eu cyfarfodydd, a chyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, y dogfennau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfodydd hynny; a'u cyfrifon blynyddol archwiliedig.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – adran 47 yn ei gwneud yn haws cynnal cyfarfodydd drwy amrywiaeth o drefniadau, gan gynnwys cyfarfodydd aml-leoliad lle y bydd pawb yn mynychu'n rhithwir a chyfarfodydd hybrid – lle y bydd nifer o unigolion yn mynychu'n bersonol mewn lleoliad dynodedig ac eraill yn mynychu'n rhithwir o amrywiaeth o leoliadau eraill. Gweler Pennod 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Mae Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau gan gynghorau cymuned, e.e. hysbysiadau am gyfarfodydd a'r trefniadau ar eu cyfer a chyhoeddi nodyn byr o fewn 7 diwrnod i gyfarfodydd y cyngor. Dylid eu darllen ar y cyd ag adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Mae cyhoeddi dogfennau yn electronig yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth allweddol ar gael cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac o fewn saith diwrnod gwaith i gynnal cyfarfod y cyngor cymuned, ac mae'n rhaid i'r wybodaeth gynnwys y canlynol: enwau'r aelodau a oedd yn bresennol; ymddiheuriadau am absenoldeb; datganiadau o fuddiant; unrhyw benderfyniadau a wnaed a chanlyniad unrhyw bleidleisiau. Ni fyddai hyn yn berthnasol i unrhyw benderfyniadau a wneir yn breifat, neu lle y byddai datgelu'r wybodaeth yn mynd yn groes i unrhyw ddeddfiad.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, adran 48, rhaid i bobl sy'n llywyddu cyfarfodydd cynghorau cymuned a thref sy'n agored i'r cyhoedd roi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol gyflwyno sylwadau am unrhyw fater a gaiff ei drafod yn y cyfarfod, onid yw hynny'n debygol o gael effaith andwyol ar y gallu i gynnal y cyfarfod yn effeithiol.

Gall fod yn ddefnyddiol rhoi'r holl wybodaeth am y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu; sut y caiff penderfyniadau eu gwneud; a'r gweithdrefnau a ddilynir er mwyn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn atebol, yn agored ac yn dryloyw mewn un cyfansoddiad wedi'i ddogfennu. Prif elfennau cyfansoddiad wedi'i ddogfennu fydd rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y cyngor, ynghyd â chynllun pwerau dirprwyedig y clerc, y cod ymddygiad i aelodau, y cod ymddygiad i gyflogeion, y protocol i aelodau / swyddogion, y cylch gorchwyl i bwyllgorau, ac ati.

Adnoddau

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref – Pennod 3 Cyfranogiad mewn cyfarfodydd

Canllaw'r cynghorydd da ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref – mae rhan 3 yn cynnig canllawiau ar gyfer cyfarfodydd cynghorau

Arnold – Baker on Local Council Administration (12fed Argraffiad Rhagfyr 2020)

Canllawiau Statudol: Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref

Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 – adrannau 41, 50 a 51 yn nodi sut y dylai'r cyngor gyfrifo ei gyllideb a'i braesept.

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Adran 101 yn gwneud darpariaethau ar gyfer penodi pwyllgorau a sut y dylai pwyllgorau gyflawni eu swyddogaethau.

Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960

Mae enghreifftiau arfer da o gynlluniau busnes cynghorau, gan gynnwys cynlluniau cymunedol, ar gael i aelodau Un Llais Cymru ar gais.

Ceir enghraifft o gyfansoddiad wedi'i ddogfennu ar wefan Cyngor Gwledig Llanelli

Sylwadau

Camau gweithredu

Byddwn yn:

-

Mae'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant
Cwestiynau i'w hystyried • Sut mae'r cyngor yn goruchwylio ac yn rheoli ei drefniadau iechyd a diogelwch? • Sut mae'r cyngor wedi asesu a oes ganddo'r arbenigedd, y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol i reoli ei faterion yn ddiogel fel y bo angen? • Sut mae'r cyngor yn sicrhau iechyd a diogelwch ar ei safleoedd ac yn ystod ei weithgareddau? • A yw'r cyngor yn dyrannu adnoddau cyllidebol digonol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol mewn perthynas â'i holl weithgareddau? • Pa systemau a gwiriadau sydd ar waith gan y cyngor i reoli risg?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Pwyllgor Rheoli Iechyd a Diogelwch • Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch • Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch • Asesiadau risg • Cofnodion o brofion • Cynllun gweithredu Iechyd a Diogelwch blynyddol • Llyfr cofnodi damweiniau a gweithdrefnau ymchwilio cysylltiedig • Polisi rheoli straen • Asesiad risg straen
Rhagor o wybodaeth **Rhaid** i gyflogwyr wneud y canlynol:

Darparu amgylchedd gwaith diogel i gyflogeion a phobl eraill y mae eu gweithredoedd yn effeithio arnynt, gan gynnwys contractwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Rhaid i gyflogeion wneud y canlynol:

Ymddwyn yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch y cyngor a'i weithdrefnau ategol a chydymffurfio â'r holl reoliadau statudol a gofynion cyfreithiol iechyd a diogelwch.

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys y canlynol:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1992
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992
- Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013

Adnoddau, cyngor a hyfforddiant

Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch amrywiaeth o ganllawiau ar ei wefan.

Cwrs 'Managing Safety' IOSH – yn addas i gynghorwyr a chlercod

Mae Un Llais Cymru yn ymdrin ag iechyd a diogelwch yn ei fodiwl hyfforddiant '*Y cyngor fel cyflogwr*'

Sylwadau

Camau gweithredu **Byddwn yn:** •

Mae'r cyngor yn deall sut i reoli ei asedau a'i gyfleusterau
Cwestiynau i'w hystyried • Sut mae'r cyngor yn darparu ac yn adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ganddo i'r gymuned? • Sut mae'r cyngor yn cofnodi, yn rheoli ac yn cynnal ei asedau a'i gyfleusterau presennol? • A oes gan y cyngor broses i nodi opsiynau trosglwyddo posibl / ystyried ceisiadau i drosglwyddo gwasanaethau ac asedau o'i awdurdod lleol? • A oes trefniadau yswiriant digonol ar waith i ddiogelu asedau a chyfleusterau?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Tystiolaeth o arolygon, digwyddiadau ymgysylltu, cyfraniadau gan y cyhoedd at gyfarfodydd y cyngor • Tystiolaeth mewn cofnodion o drafodaethau pennu'r gyllideb a chyfarfodydd cynllunio busnes • Tystiolaeth bod siarter neu brotocol ar waith gyda'r awdurdod lleol • Cofnodion sy'n cofnodi asesiad o angen am ased neu wasanaeth newydd • Cofrestr asedau • Rhaglen cynnal a chadw • Dogfennaeth y Gofrestrfa Tir / gweithredoedd teitl • Polisi trosglwyddo asedau • Dogfennaeth yswiriant
Rhagor o wybodaeth: Dylid sicrhau bod rheolaethau mewnol ar waith i ddiogelu'r asedau a'r buddsoddiadau a ddelir gan y cyngor rhag cael eu colli neu eu difrodi ac i sicrhau y cânt eu defnyddio'n briodol yn y gymuned. Dylai rheolaethau mewnol gynnwys y canlynol:

- Cynnal cofrestr asedau;
- Arolygiadau rheolaidd o asedau sefydlog er mwyn sicrhau eu bod yn bodoli, eu bod yn parhau mewn cyflwr da a'u bod yn cael eu defnyddio'n briodol;
- Trefniadau priodol ar gyfer awdurdodi achosion o waredu neu sgrapio asedau sefydlog;
- Sicrhau bod ffiniau cadarn yn bodoli ar gyfer unrhyw dir ac adeiladau a ddelir gan y cyngor a chadw'r holl weithredoedd teitl yn ddiogel.

Mae polisi trosglwyddo asedau yn rhoi neges gadarnhaol i'r gymuned am safbwynt y cyngor o ran diogelu cyfleusterau lleol. Mae polisi yn cadarnhau'r bwriad i gymryd cyfrifoldeb am berchenogaeth, rheolaeth a threfniadau gweithredu asedau gan y prif gyngor.

Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Llywodraeth Leol 1972, adrannau 124, 126 a 127 – pŵer i gaffael tir drwy gytundeb, i'w briodoli a'i waredu.

Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 135 – yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor lunio rheolau sefydlog yn ymwneud â chontractau ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu ar gyfer ymgymryd â gwaith

Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 139 – pŵer i dderbyn tir fel rhodd.

Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 133 – pŵer i ddarparu adeiladau ar gyfer cyfarfodydd a chynulliadau cyhoeddus

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, adran 19 – pŵer i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleusterau hamdden

Adnoddau

Pecyn Cymorth Asedau a Gwasanaethau – yn cynnwys gwybodaeth, astudiaethau achos ac adnoddau wedi'u dylunio i helpu cynghorau sy'n cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau ac asedau cymunedol.

Governance and Accountability for Local Councils in Wales – A practitioners guide (Argraffiad 2019) – gweler rhan 2 'Governance and financial management'.

Sylwadau
Camau gweithredu Byddwn yn: •

Thema E – Adnoddau a rheolaeth ariannol

Mae cynghorau cymuned a thref yn gyfrifol am reoli arian ac asedau cyhoeddus. Dylai fod gan bob cyngor drefniadau llywodraethu ariannol priodol ar waith i sicrhau diogelwch yr adnoddau hyn a sicrhau ei fod yn cyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.

Mae'r thema hon yn ystyried y trefniadau y mae'r cyngor wedi'u rhoi ar waith i reoli ei adnoddau, ac mae'n ymdrin â'r asedau a ddelir a chyllid y cyngor. Bydd y cwestiynau yma yn helpu'r cyngor i fyfyrio ar y dull rheolaeth ariannol cyffredinol, a dylai ddefnyddio'r wybodaeth am y thema hon yn y prawf iechyd i roi hyder ei fod wedi dilyn y gweithdrefnau statudol ac anstatudol er mwyn sicrhau rheolaeth ariannol dda.

Mae gan y cyngor systemau cyfrifyddu ac archwilio addas
Cwestiynau cyfrifyddu i'w hystyried • Pa ddulliau y mae'r cyngor yn eu defnyddio i ddogfennu ei systemau a'i reolaethau cyfrifyddu? • Sut mae'r cyngor yn bodloni ei hun eu bod yn diwallu ei anghenion? • Sut mae'r cyngor yn bodloni ei hun fod y systemau a'r rheolaethau cyfrifyddu yn gweithredu yn ôl y bwriad? • Sut mae'r cyngor yn sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu yn ddiogel a'u bod ar gael i swyddogion perthnasol? • Sut mae'r cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am gwblhau a chymeradwyo'r Datganiad Blynyddol / datganiad o gyfrifon mewn modd amserol a chyflawn? **Cwestiynau archwilio i'w hystyried** • Sut mae'r cyngor yn penodi ei archwilydd mewnol? • Pa mor aml y mae'r cyngor yn adolygu'r archwilydd a benodwyd ganddo? • Sut mae'r cyngor yn sicrhau ei fod yn cael adroddiadau ar archwiliadau mewnol ac allanol?

- Pa ddulliau y mae'r cyngor yn eu defnyddio i ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac allanol ac i weithredu arnynt er mwyn myfyrio ar ei reolaeth ariannol a'i gwella?

Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad

- Rhestr o gofnodion cyfrifyddu a gedwir gan y cyngor
- Trefniadau wedi'u dogfennu ar gyfer trosglwyddo dogfennau pan fydd y swyddog ariannol cyfrifol yn newid
- Cylch gorchwyl archwilio mewnol ac adroddiadau archwilio
- Cyfarfodydd y cyngor / pwyllgorau â'r archwilydd mewnol, cyflwyniadau gan yr archwilydd mewnol i'r cyngor
- Adroddiadau archwilio mewnol ac allanol a phroses ar gyfer olrhain argymhellion
- Eitem sefydlog ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd mis Mehefin a mis Medi / Hydref i gadarnhau bod y cyfrifon wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi

Rhagor o wybodaeth

Mae cynghorau cymuned a thref yn gyfrifol am sicrhau y caiff yr arian cyhoeddus a ymddiriedwyd iddynt ei lywodraethu a'i reoli'n effeithiol, ac y caiff ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Mae'r rheolau, y statudau a'r gweithdrefnau ariannol yn diogelu'r cyngor ac yn rhoi'r adnoddau iddo gyflawni ei nodau a gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Mae pob cynghorydd yn gyfrifol am gyllid y cyngor a dylai sicrhau bod gan y cyngor drefniadau priodol ar waith.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gynghorau gyflwyno eu cyfrifon blynyddol i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae cyfrifon y rhan fwyaf o gynghorau ar ffurf datganiad blynyddol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud trefniadau i archwilwyr gynnal yr archwiliad allanol. Mae'r archwiliad allanol yn cadarnhau a yw'r datganiadau cyfrifyddu wedi'u paratoi'n briodol ac a yw'r cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â rheolaeth ariannol.

Y datganiad blynyddol yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod y cyngor yn atebol i'w etholwyr ac mae'n rhaid i gynghorau gwblhau datganiad blynyddol i gadarnhau bod popeth mewn trefn. Mae datganiadau wedi'u llofnodi yn cadarnhau cyfrifoldeb am drefniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Yn arbennig, maent yn dangos y canlynol:

- bod y cyfrifon wedi'u paratoi a'u cymeradwyo'n briodol;
- bod system rheolaeth fewnol ar waith – gan gynnwys penodi archwilydd mewnol cymwys ac annibynnol – a bod effeithiolrwydd y system a'r penodiad wedi'u hadolygu;

- bod y cyngor wedi cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â'r gyfraith;
- bod y cyngor wedi asesu'r holl risgiau posibl i arian cyhoeddus;
- bod y cyfrifon wedi cael cyhoeddusrwydd o ran y cyfle cyffredinol i'w harchwilio er mwyn i etholwyr allu arfer eu hawliau;
- nad oes unrhyw faterion cudd neu faterion a allai fod yn niweidiol, fel honiad arfaethedig yn erbyn y cyngor;
- bod gwahaniaethau sylweddol yn y ffigurau (rhwng ffigurau'r flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol) wedi'u hesbonio.

Rhaid i gorff perthnasol llai, heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn union ar ôl diwedd blwyddyn ariannol – (a) ystyried y datganiadau cyfrifyddu mewn cyfarfod llawn o'r aelodau; (b) ar ôl yr ystyriaeth honno, cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w cyflwyno i'r archwilydd drwy benderfyniad gan y corff; (c) ar ôl eu cymeradwyo, sicrhau y caiff y datganiadau cyfrifyddu eu llofnodi a'u dyddio gan yr unigolyn a oedd yn llywyddu'r cyfarfod lle rhoddwyd y gymeradwyaeth honno.

Dylai'r cyngor sicrhau ei fod yn ymwybodol o ganlyniad yr archwiliad statudol ac unrhyw faterion a nodwyd fel y gellir gwella ei drefniadau neu gywiro gwallau ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Mae enghreifftiau o ddeddfwriaeth allweddol y dylid bod yn ymwybodol ohonynt yn cynnwys:

- Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adran 151), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned neu dref benodi swyddog ariannol cyfrifol. Rôl y cynghorwyr yw sicrhau bod y swyddog ariannol cyfrifol yn ymddwyn yn briodol.

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), sy'n nodi cyfrifoldebau'r cyngor o ran rheolaeth ariannol, rheolaethau mewnol ac archwilio mewnol (Rheoliadau 5, 6 a 7) yn ogystal â'r gweithdrefnau gofynnol a'r amserlen ar gyfer llofnodi, cymeradwyo a chyhoeddi'r cyfrifon (Rheoliad 15).

Adnoddau a hyfforddiant

Mae Governance and Accountability for Local Councils in Wales – A practitioners guide (Argraffiad 2019) yn rhoi canllawiau manwl ar reolaeth ariannol a llywodraethu (Rhan 2), arferion cyfrifyddu (Rhan 3 i gynghorau ag incwm a gwariant islaw £2.5 miliwn a Rhan 4 i gynghorau ag incwm a gwariant uwchben £2.5 miliwn), yn ogystal â rhestrau gwirio ar gyfer adolygu archwiliadau mewnol blynyddol (Atodiad 2) ac ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol (Atodiad 3). Mae'r canllaw hefyd yn ymdrin ag archwilio allanol a hawliau etholwyr

(rhan 5).

Dylai fod gan eich cyngor ei reoliadau ariannol ei hun sy'n nodi sut mae'r cyngor yn rheoli ei gyllid. Mae rheoliadau ariannol enghreifftiol ar gael i aelodau Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant 'Cyllid Llywodraeth Leol'. I gael rhagor o fanylion, gan gynnwys unrhyw gymorth bwrsari a allai fod ar gael ar gyfer yr hyfforddiant hwn, ewch i wefan Un Llais Cymru. Mae modiwl e-ddysgu sylfaenol, sef 'Deall Cyllid Llywodraeth Leol' hefyd ar gael, yn rhad ac am ddim i bawb, ar wefan Un Llais Cymru.

Mae Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn cynnig cymwysterau perthnasol i glercod, gan gynnwys:

- Cyflwyniad Ariannol i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol (FILCA)
- Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CILCA)

Gweminar: Trefniadau Archwiliad Mewnol mewn Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru – digwyddiad dysgu a rennir gan Dîm Arferion Da Archwilio Cymru.

Sylwadau

Camau gweithredu

Byddwn yn:

-

Mae gan y cyngor brosesau rheolaeth ariannol a chymorth ariannol addas
Cwestiynau rheolaeth ariannol i'w hystyried • Sut mae'r cyngor yn datblygu ac yn cymeradwyo ei gyllideb flynyddol? • Sut mae'r cyngor yn monitro ei gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol? • Pa drefniadau y mae'r cyngor wedi'u gwneud ar gyfer cymeradwyo a gwneud taliadau mewn ffordd dryloyw? **Cwestiynau cymorth ariannol i'w hystyried:** • Sut mae'r cyngor yn penderfynu pa gyrff y dylai roi cymorth ariannol iddynt? • Sut mae'r cyngor yn monitro gwerth y cymorth ariannol a roddir bob blwyddyn? • Sut mae'r cyngor yn rheoli risg ac yn sicrhau hyder yn ei brosesau cymorth ariannol?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad – Rheolaeth ariannol • Cyllideb fanwl wedi'i pharatoi sy'n dadansoddi'r derbyniadau a'r taliadau disgwyliedig, y defnydd o gronfeydd wrth gefn, ac ati, i ategu'r gofyniad o ran cyfanswm y gyllideb i'w fodloni gan y praesept • Myfyrdodau gan aelodau, yn unigol ac ar y cyd • Cysoniadau banc rheolaidd wedi'u paratoi gan y swyddog ariannol cyfrifol ac sy'n destun trefniadau adolygu priodol • Gwaith rheolaidd i fonitro gwariant drwy gydol y flwyddyn • Derbyniadau praesept • Gweithdrefnau rheolaeth fewnol wedi'u dogfennu **Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad – Cymorth ariannol** • Polisi a gweithdrefn ar gyfer dyfarnu grantiau • Polisi a gweithdrefn cymorth ariannol • Cofnodion yn dogfennu'r grantiau a ddyfarnwyd sy'n gysylltiedig â pholisi grantiau

- Adroddiad blynyddol
- Gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned
- Myfyrdodau gan aelodau, yn unigol ac ar y cyd

Rhagor o wybodaeth

Rheolaeth Ariannol

Mae'r gyllideb yn adnodd hanfodol ar gyfer rheoli cyllid y cyngor. Mae'n dangos bod gan eich cyngor incwm digonol i ymgymryd â'i weithgareddau a rhoi ei bolisïau ar waith. Rhaid paratoi'r gyllideb ymlaen llaw, gan ei bod yn cael ei defnyddio i bennu'r praesept ar gyfer y flwyddyn. Drwy edrych ar wariant yn erbyn cynlluniau'r gyllideb yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y cyngor, mae'r cyngor yn rheoli ei gyllid ac yn monitro cynnydd tuag at yr hyn y mae am ei gyflawni.

Mae'n rhaid bod gan y cyngor system rheolaeth fewnol lle y bydd rhywun (ac eithrio'r swyddog ariannol cyfrifol) yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol ac yn bwrw golwg dros ddogfennau ariannol a ddewisir ar hap, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer derbyn arian, gwneud taliadau a chofnodi trafodion ariannol. Fel arfer, byddai'r dasg hon yn cael ei chyflawni gan gynghorydd neu gynghorwyr sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o ddogfennaeth ariannol. Dylai lefel y rheolaeth fewnol fod yn briodol ar gyfer gwariant a gweithgareddau eich cyngor. Bydd angen rhwystrau a gwrthbwysau mwy cynhwysfawr ar gynghorau sy'n darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau. Caiff y canfyddiadau eu cyflwyno i'r cyngor, ac ynghyd ag adborth rheolaidd gan y swyddog ariannol cyfrifol ar y cyfrifon, bydd pob cynghorydd yn ymwybodol o sefyllfa ariannol y cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod popeth yn agored ac yn gyfreithlon a'ch bod yn meddu ar y wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o fenthyca allanol er mwyn bodloni cynlluniau gwariant y cyngor, er enghraifft ar gyfer prosiectau cyfalaf. Mae'r benthyca a wneir gan gynghorau cymuned a thref yn ddarostyngedig i reolaethau'r llywodraeth ac mae angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Gall Llywodraeth Cymru hefyd osod amodau y bydd yn rhaid cydymffurfio â nhw wrth fenthyca. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar wneud cais am gymeradwyaethau benthyca a ffurflen gais ar ei gwefan.

Mae enghreifftiau o ddeddfwriaeth allweddol y dylid bod yn ymwybodol ohonynt yn cynnwys:

- Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 – adrannau 41, 50 a 51 yn nodi sut y dylai'r cyngor gyfrifo ei gyllideb a'i braesept.

Adnoddau

Mae Governance and Accountability for Local Councils in Wales – A practitioners Guide (Argraffiad 2019) yn nodi gofynion statudol, arferion priodol a chanllawiau ar bennu a monitro cyllidebau ym Mhennod 6

Cymorth ariannol

Bydd cyngor yn rhoi cymorth ariannol pan fydd yn cytuno i ddarparu grantiau a / neu fenthyciadau i gyrff eraill.
Mae adran 137 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i gynghorau cymuned a thref wario ar weithgareddau nad oes ganddynt unrhyw bwerau penodol eraill ar eu cyfer os bydd y cyngor o'r farn bod y gwariant er budd yr ardal neu unrhyw ran ohoni, ei holl breswylwyr neu rai ohonynt, ac y bydd yn cynnig budd uniongyrchol iddynt, ar yr amod bod y buddiannau yn gymesur â'r gwariant. Caniateir hefyd i gynghorau cymuned a thref fynd i wariant o dan adran 137(3) at rai dibenion elusennol a rhai dibenion eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr at bob cyngor cymuned a thref yn nodi'r uchafswm gwariant y gellir mynd iddo o dan adran 137(1) a (3) ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol. Noder – Pan fydd cyngor yn pasio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned cymwys, ni fydd adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gymwys i'r cyngor mwyach. Yn wahanol i adran 137, nid oes cyfyngiad ariannol ar y swm y caiff cyngor cymuned cymwys ei wario os yw'n arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gwneud darpariaeth i gynghorau cymuned a thref cymwys arfer pŵer cymhwysedd cyffredinol, gyda'r nod o sicrhau llywodraeth leol fwy effeithiol, galluog ac arloesol. Bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i gynghorau cymwys weithredu er budd pennaf eu cymunedau, cynhyrchu arbedion a sicrhau gwerth am arian. Byddant hefyd yn gallu codi arian drwy godi ffi am wasanaethau dewisol ac i fasnachu. Gweler Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref (Pennod 1).

Adnoddau a hyfforddiant

Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant 'Cyllid Llywodraeth Leol'. I gael rhagor o fanylion, gan gynnwys unrhyw gymorth bwrsari a allai fod ar gael ar gyfer yr hyfforddiant hwn, ewch i wefan Un Llais Cymru. Mae modiwl e-ddysgu sylfaenol, sef 'Deall Cyllid Llywodraeth Leol' hefyd ar gael, yn rhad ac am ddim i bawb, ar wefan Un Llais Cymru.

Mae Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn cynnig cymwysterau perthnasol i glercod:

• Cyflwyniad Ariannol i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol (FILCA) • Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CILCA) • Cyflwyniad i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol (ILCA)
Sylwadau
Camau gweithredu **Byddwn yn:** •

Thema F – Gwerthuso'r effaith

Nid yw'r ffaith bod cyngor yn cael ei redeg yn dda bob amser yn golygu bod y cyngor hwnnw yn cael effaith sylweddol ar y gymuned leol. Mae'r thema hon yn ystyried canlyniad y gwaith a ddeilliodd o themâu blaenorol ac yn cynnig cyfle i'r cyngor asesu a yw'n cyflawni'r buddiannau dymunol ar gyfer ei gymuned. Bydd yn darparu hunanadolygiad naturiol er mwyn canfod a yw'r cyngor yn darparu'r gwasanaeth a ddisgwylir ganddo ac a yw'n gwneud popeth y gallai ei wneud.

Bydd ystyried y cwestiynau sy'n rhan o'r thema hon hefyd yn eich helpu i grynhoi cyflawniadau'r cyngor ac i benderfynu ar flaenoriaethau a gweithgareddau'r cyngor ar gyfer y dyfodol er mwyn llywio adroddiad blynyddol y cyngor.

Mae'r cyngor yn asesu budd eich gwaith i'r gymuned er mwyn llywio gweithgareddau a gwasanaethau ar gyfer y dyfodol
Cwestiynau i'w hystyried • Sut rydych yn gwybod bod yr hyn rydych wedi'i gyflawni ar gyfer y gymuned wedi bod o fudd ac wedi gwneud gwahaniaeth? • Pa dystiolaeth rydych yn ei defnyddio i ddeall effaith gwaith y cyngor? • A ydych wedi ystyried newidiadau i'r gymuned neu ddeddfwriaeth (e.e. pŵer cymhwysedd cyffredinol) yn y dyfodol i ystyried cyfleoedd ar gyfer ffyrdd newydd o helpu eich cymuned?
Enghreifftiau o dystiolaeth i'w hadolygu er mwyn llywio'r asesiad • Adroddiad blynyddol y flwyddyn flaenorol (os yw ar gael) • Gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned • Myfyrdodau gan aelodau, yn unigol ac ar y cyd • Cwynion a chanmoliaeth

Rhagor o wybodaeth

Bydd y cwestiynau yma yn rhoi'r cyfle i chi, fel cynghorwyr, ystyried gyda'ch gilydd beth y mae'r cyngor yn ei gyflawni ar gyfer y gymuned. Mae'n bosibl y byddwch eisoes wedi pennu ffordd o werthuso effaith gwaith y cyngor, neu efallai y bydd hyn yn rhywbeth y byddwch yn penderfynu bod angen ei ddatblygu ymhellach. Bydd hyn yn eich helpu i baratoi adroddiad blynyddol y cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (adran 52). Bydd yr adroddiad yn nodi blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor yn ystod y flwyddyn. Gweler hefyd Bennod 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Mae defnyddio tystiolaeth i ddeall yr hyn rydych wedi'i gyflawni ar gyfer y gymuned, a'r hyn y gellid ei gyflawni yn y dyfodol, yn hanfodol er mwyn gwneud y penderfyniadau cywir wrth symud ymlaen. Bydd dealltwriaeth dda o'r hyn rydych yn ei gyflawni, ei arwyddocâd i'r gymuned, ei effeithiolrwydd a'i werth am arian, yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud penderfyniadau da ar gyfer y gymuned yn y dyfodol. I'r gwrthwyneb, gall methu â manteisio ar y cyfle i ystyried a ydych yn cyflawni'r hyn sydd ei angen ar y bobl yn eich cymuned arwain at fuddsoddi amser ac adnoddau mewn pethau na fyddant o bosibl yn cael llawer o effaith.

Gallwch ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu tystiolaeth o'r budd y mae eich cyngor yn ei gynnig i'r gymuned – gellid ystyried cyngorfeydd cynghorwyr, arolygon cymunedol, sesiynau ymgysylltu â'r gymuned a'r cyfryngau cymdeithasol, ymhlith dulliau eraill.

Sylwadau

Camau gweithredu

Byddwn yn:

-

Crynodeb o'r camau gweithredu allweddol i'w cymryd o ganlyniad i Ran 2 – Yr hunanasesiad

Crynodeb o'r camau gweithredu	Gan bwy	Erbyn pryd
•	•	•

Diweddariadau i'r Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Dyddiad	Fersiwn	Beth sydd wedi newid	Lle
Tachwedd 2022	1.1	Dolenni at adnoddau ychwanegol yn ymwneud â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau	• Rhan 1: Y Prawf Iechyd / Thema A, Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol / Datganiad A.2 • Rhan 2: Yr hunanasesiad / Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol : Rhagor o wybodaeth
Tachwedd 2022	1.1	Nodi argaeledd templed cynllun hyfforddi ar gyfer aelodau Un Llais Cymru ar gais.	• Rhan 1: Y Prawf Iechyd / Thema B – Arweinyddiaeth a Phobl / Datganiadau B.5 a B.17 • Rhan 2: Yr hunanasesiad / Thema B – Arweinyddiaeth a Phobl: Rhagor o wybodaeth
Tachwedd 2022	1.1	Rhoi eglurhad i gynghorau sy'n dibynnu ar adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol, a'r rhai sydd wedi pasio penderfyniad eu bod yn gynghorau cymuned cymwys at ddibenion y pŵer cymhwysedd cyffredinol, ar ddefnyddio'r	Rhan 1: Y Prawf Iechyd / Thema E Adnoddau a Rheolaeth Ariannol / Datganiadau E.32-E.36

		pwerau penodol hynny.	
Tachwedd 2022	1.1	Nodi bod Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Lleol Cynghorau wedi cydgynhyrchu dogfen canllawiau ‘Bwlio ac Aflonyddwch mewn Cynghorau’ sydd ar gael ar gais i aelodau.	Rhan 2: Yr hunanasesiad / Thema B – Arweinyddiaeth a Phobl: Rhagor o wybodaeth
Tachwedd 2022	1.1	Cynnwys dolen at ganllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol ar ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol.	Rhan 2: Yr hunanasesiad / Thema C – Ymgysylltu â’r gymuned a phartneriaethau: Rhagor o wybodaeth